Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 72/2025

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2025

# Gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD): astudiaeth ansoddol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-116-1

Gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) gan gynnwys unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD): astudiaeth ansoddol

Awduron: Dr Kaydee Owen (Prifysgol Bangor), Dr Margiad Williams (Prifysgol Bangor), Dr Anne Hodgson (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), Martin Jones (Arad), Sam McAlister-Wilson (Arad)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owen, K; Williams, M; Hodgson, A; Jones, M; McAlister-Wilson, S (2025). Gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD): astudiaeth ansoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 72/2025

Ar gael: https://www.llyw.cymru/gwireddur-cwricwlwm-i-gymru-mewn-darpariaeth-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-gan-gynnwys-unedau-cyfeirio-disgyblion-astudiaeth-ansoddol

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Cwricwlwm

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000253213

E-bost: ymchwil.cwricwlwm@llyw.cymru

## Cynnwys

Rhestr tablau ..... 2

Geirfa ..... 3

Crynodeb gweithredol ..... 4

1. Cyflwyniad ..... 14

2. Methodoleg ..... 24

3. Canfyddiadau ..... 31

4. Casgliadau ..... 59

Atodiad A: Cyfeiriadau ..... 67

Atodiad B: Offerynnau ymchwil ..... 69

## Rhestr tablau

Tabl 1: UCDau, awdurdodau lleol, ac AHY heb fod mewn UCD a gynrychiolwyd yn y gwaith maes (a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2024) ..................................25

## Geirfa

**ACRh**

Addysg cydberthynas a rhywioldeb

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**AHY**

Addysg heblaw yn yr ysgol – mae cyfeiriadau at AHY/darpariaeth AHY yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ddarpariaeth AHY mewn UCD a heb fod mewn UCD

**CAMHS**

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

**CDU**

Cynllun Datblygu Unigol

**Cynrychiolwyr**

Y rhai mewn awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am oruchwylio neu gomisiynu darpariaeth AHY

**Darpariaeth AHY heb fod mewn UCD**

Gallai hyn gynnwys tiwtora unigol yn y cartref neu mewn ysbyty, addysg gysylltiedig â gwaith, darpariaeth gan sefydliadau trydydd sector, a darpariaeth bwrpasol arall gan gyfuniad o ddarparwyr

**ELSA**

Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol

**Maes(meysydd)**

Maes(meysydd) Dysgu a Phrofiad

**PCP**

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (person-centred practice).

**TAAU**

Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd

**UCD(au)**

Uned(au) Cyfeirio Disgyblion

**Ymarferwyr**

Y rhai sy'n gweithio mewn AHY er mwyn cynnig darpariaeth i ddysgwyr

# Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o'r gwerthusiad, cynhaliwyd astudiaethau ansoddol yn seiliedig ar bynciau a thestunau, gan archwilio elfennau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru.

2. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil ansoddol ynghylch gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a darpariaeth arall addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), dan arweiniad Prifysgol Bangor, mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Nod yr ymchwil oedd rhoi sylw i ddau nod canolog mewn perthynas â darpariaeth AHY. Y rhain oedd:

    - deall sut mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu yn ymarferol
    - archwilio sut caiff darparwyr AHY eu cynorthwyo i weithredu Cwricwlwm i Gymru

## Methodoleg

3. Roedd y fethodoleg, a nodir ym mhennod 2 yr adroddiad hwn, yn cynnwys:

    - recriwtio unigolion sy'n cyflawni amrediad o rolau sy'n ymwneud â darpariaeth AHY ar draws Cymru i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ymarferwyr sy'n cynllunio'r cwricwlwm ac sy'n addysgu mewn AHY mewn UCD a heb fod mewn UCD, a chynrychiolwyr awdurdod lleol fel swyddogion cynhwysiant a'r rhai sy'n ymwneud ag atgyfeirio, comisiynu a sicrhau'r cwricwlwm
    - at ei gilydd, roedd 36 unigolyn wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr o naw UCD, naw awdurdod lleol a 10 darparwr AHY heb fod mewn UCD ar draws Cymru. Cynrychiolwyd pob rhanbarth yng Nghymru (Gogledd Cymru, y Canolbarth a'r Gorllewin, Canol De Cymru a De Ddwyrain Cymru) yn y sampl, gan gynnwys lleoliadau mewn ardaloedd trefol a gwledig
    - adolygiad pen desg, gan gynnwys adolygiad o ddogfennaeth polisi a chanllawiau sy'n ymwneud â darpariaeth AHY, a gweithdy gyda

swyddogion polisi Llywodraeth Cymru i adnabod llinellau ymholi a ddefnyddiwyd fel rhan o drafodaethau ansoddol

- gwnaethpwyd gwaith dadansoddi fesul cam, ac roedd yn cynnwys: adolygiad o drawsgrifiadau trafodaethau; llunio crynodebau ysgrifenedig o bob trafodaeth; gwaith codio agored o drawsgrifiadau er mwyn nodi themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro

4. Mae'r adroddiad yn amlygu nifer o gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth hon, sef:

- natur fach a hunanddewisol y sampl, sy'n golygu nad yw'r canfyddiadau yn rhai y mae modd eu cyffredinoli
- y ffaith bod y trafodaethau a gynhaliwyd yn seiliedig ar gipolwg o'r sefyllfa ar un adeg, gan gyfyngu ar y gallu i archwilio 'taith' Cwricwlwm i Gymru AHY mewn UCD ac AHY heb fod mewn UCD, a'u cynnydd dros gyfnod hwy
- o ganlyniad i'r amser cyfyngedig a oedd ar gael yn ystod trafodaethau, ni fu modd cael ymdeimlad llawn o'r gwaith cynllunio a wnaethpwyd a lefel y manylder a fu ynghlwm â hyn bob tro
- gofynnwyd i'r holl gynrychiolwyr UCD ac awdurdodau lleol yn y sampl i rannu copi o grynodeb eu cwricwlwm, pan oedd un ar gael (gan mai dim ond tri chrynodeb y bu modd eu harchwilio, gwnaethpwyd penderfyniad i beidio dadansoddi'r rhain)
- ni fu modd cynrychioli pob math o ddarpariaeth AHY yn yr astudiaeth hon, o ganlyniad i ystod eang y ddarpariaeth ar draws Cymru
- y tu hwnt i'r grwpiau cyfranogwyr a gafodd eu recriwtio, ceir rhanddeiliaid eraill sy'n cyflawni rôl allweddol wrth ddatblygu cwricwlwm AHY, megis rhieni/gofalwyr, dysgwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion prif ffrwd, nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y sampl
- efallai bod cyfranogwyr wedi tueddu i gynnig ymatebion yr oeddent yn teimlo eu bod yn ddisgwyliedig neu'n cyd-fynd â normau polisi; er mwyn lleihau risg tuedd dymunoldeb cymdeithasol gymaint ag y bo modd, pwysleisiodd yr ymchwilwyr sut y gallai adborth gonest gael dylanwad

cadarnhaol ar welliannau i bolisi ac arfer, gan sicrhau y byddai pawb yn hollol ddienw yn yr adroddiad terfynol

- ceir risg hefyd o weld tuedd ymchwilwyr; roedd yr ymchwilwyr wedi cadw dyddiadur myfyriol i fyfyrio am eu profiadau personol, eu hystyriaethau a'u rhyngweithiadau trwy gydol y broses er mwyn lleihau risg tuedd neu fyfyrio am ei effaith bosibl

## Canfyddiadau

5. Datblygodd y tîm ymchwil restr o brif gwestiynau ymchwil a oedd wedi tywys y gwaith casglu data ar gyfer yr astudiaeth hon, ac wedi cynnig strwythur ar gyfer yr adroddiad hwn.

## Cwestiwn Ymchwil 1: Ym mha ffyrdd y mae darparwyr AHY yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

6. Roedd hi'n farn gyffredin ymhlith ymarferwyr AHY bod rhai o'r manteision o weithredu Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys mwy o ymgysylltu gyda dysgwyr, gwelliant o ran cymhelliant, a mwy o ffocws ar anghenion, dyheadau a chynnydd dysgwyr. Amlygodd rhai ymarferwyr ymddygiad gwell ymhlith dysgwyr hefyd, trwy gyfrwng dull mwy holistaidd o ddysgu, sy'n gwerthfawrogi lles a datblygiad personol.
7. Amlygodd rhan fwyaf o ymarferwyr AHY fanteision hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru ac roeddent yn teimlo bod ei ethos yn cyd-fynd yn dda â'r ddarpariaeth a'r amgylchedd dysgu cefnogol yr oeddent eisoes yn ei gynnig. I'r ymarferwyr hyn, roedd Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu cyfleoedd pellach i gynllunio cwricwla pwrpasol er mwyn bodloni anghenion, galluoedd a diddordebau amrywiol dysgwyr unigol, gan adlewyrchu amgylchedd meithringar a dulliau eu darpariaeth AHY bresennol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.
8. Roedd rhan fwyaf o gynrychiolwyr awdurdodau lleol yn teimlo bod hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru yn cynorthwyo galluogedd a pherchnogaeth ymarferwyr i ddatblygu'r cwricwlwm yn unol â'u cyd-destun lleol ac anghenion y dysgwyr. Roedd y cynrychiolwyr hyn o'r farn bod hon yn ffordd fuddiol o gynnig ystod

eang o gyfleoedd dysgu dilys i ddysgwyr, yn ogystal â meithrin cysylltiadau gyda grwpiau cymunedol lleol.

9. Pwysleisiwyd bod iechyd a lles yn flaenoriaeth i ddysgwyr ar draws yr holl ddarpariaeth AHY ac amlygodd rhan fwyaf y cyfranogwyr bod hon yn agwedd graidd ar ddarpariaeth eu cwricwlwm. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys cydweithio gydag asiantaethau allanol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymorth holistaidd ac unigoledig i ddysgwyr. Roedd gwireddu Cwricwlwm i Gymru wedi annog ymarferwyr i ystyried sut y byddai iechyd a lles yn cael ei integreiddio mewn cyd-destun mwy trawsgwricwlaidd.

10. Amlygodd y rhan fwyaf o ymarferwyr AHY a chynrychiolwyr awdurdodau lleol y ffaith bod yr integreiddio hwn, law yn llaw â dulliau mwy hyblyg o gynnig amgylcheddau dysgu, yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr, er enghraifft, trwy ddysgu a chynnal gweithgareddau yn yr awyr agored, ymgysylltu cymunedol, therapi cerddoriaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar.

11. O fewn darpariaeth AHY, roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio llais y dysgwr er mwyn cynnwys diddordebau a dewisiadau dysgwyr wrth gynllunio'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau adborth a thrafodaethau a chynnwys llais y dysgwr wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Roeddent yn credu bod y dull hwn yn creu profiadau dysgu sy'n ennyn mwy o ddiddordeb.

12. Roedd bron i hanner yr ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD yn barnu nad oedd Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iawn i'w darpariaeth nhw. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y ffaith bod ganddynt wahanol flaenoriaethau dysgu nad ydynt yn rhai academaidd, a ffocws ar anghenion cyflogadwyedd a galwedigaethol. Roedd hyn yn ymwneud â dysgwyr cofrestriad deuol, felly roeddent yn mynychu ysgolion prif ffrwd hefyd. O'r herwydd, nid oedd yr ymarferwyr hyn yn teimlo bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at newidiadau i'w darpariaeth neu eu harfer nhw.

### Cwestiwn Ymchwil 2: I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae cwricwlwm a threfniadau asesu Cwricwlwm i Gymru wedi galluogi darparwyr AHY i gynorthwyo eu dysgwyr? (Lle y mae trefniadau yn cynnwys cynllunio; addysgu a dysgu; adolygu'r cwricwlwm; ac asesu)

13. Adroddodd bron pob ymarferydd eu bod yn canolbwyntio ar gynnydd unigol dysgwyr, yn hytrach na thargedau cyrhaeddiad penodedig. Roedd y mwyafrif yn barnu bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn cynorthwyo newid cadarnhaol tuag at dderbyn dulliau mwy holistaidd ac ansoddol o asesu o fewn darpariaeth AHY.

14. Adroddodd rhai ymarferwyr AHY am ddatblygiadau cadarnhaol o ran y ffordd yr oedd trefniadau asesu Cwricwlwm i Gymru wedi helpu dysgwyr i ddeall eu cynnydd eu hunain. Amlinellont newid tuag at ddulliau mwy ffurfiannol sy'n cynorthwyo hunanymwybyddiaeth dysgwyr a'u hymgysylltiad gyda'u taith addysgol. Amlygodd rhai cyfranogwyr yr arfer o ddathlu datblygiad dysgwyr mewn meysydd y gallent gael eu hanwybyddu gan ysgolion prif ffrwd (er enghraifft, presenoldeb, ymddygiad, ac agweddau at ddysgu), a oedd yn helpu i newid persbectifau dysgwyr am yr hyn y gall llwyddiant ei olygu.

15. Nododd dros hanner yr ymarferwyr AHY bod lles a datblygiad personol yr un mor bwysig â chynnydd academaidd. Mae hyn wedi arwain at osod Maes Iechyd a Lles wrth wraidd eu darpariaeth AHY, ac mae asesiadau yn eu lle i fonitro'r datblygiad hwn. Fodd bynnag, adroddodd rhai am heriau wrth fesur cynnydd ym meysydd lles ac ymgysylltu â dysgu.

16. Adroddodd tua hanner yr ymarferwyr bod arosiadau neu ymyriadau tymor byr i ddysgwyr o fewn darpariaeth AHY yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiadau ystyrlon sy'n cynnig dirnadaeth o gynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r camau cynnydd. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr o'r farn, gan nad oes ffordd ragnodedig o fesur cynnydd, bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd alinio a chymharu cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio i ac o ysgolion prif ffrwd.

17. Roedd hi'n farn gyffredin ymhlith ymarferwyr bod gwaredu targedau cyrhaeddiad yn cyflwyno heriau a oedd yn ymwneud â sut a phryd i gynnal asesiadau. Adroddwyd bod hyn – ynghyd â defnyddio gwahanol strategaethau adrodd, disgwyliadau amrywiol ynghylch pa fetrigau sy'n dynodi cynnydd, a dulliau anghyson o rannu data rhwng darparwyr addysg – wedi ei gwneud hi'n anodd alinio a chymharu cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio.

18. Gan bod dysgwyr yn aml yn mynychu darpariaeth AHY am gyfnodau byr, amlygodd ymarferwyr bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiadau ystyrlon sy'n ymwneud â chamau cynnydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd hi'n hawdd gweld na mesur y cynnydd a gaiff ei sicrhau gan ddysgwyr mewn meysydd eraill (er enghraifft, lles ac ymddygiad) trwy lens Cwricwlwm i Gymru.

19. Mynegwyd rhai pryderon gan ychydig o ymarferwyr am y diffyg canllawiau sydd ar gael fel sylfaen ar gyfer y cymwysterau TGAU a TAAU newydd.[1] Roedd hyn wedi peri pryder ynghylch a oeddent yn bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru ac yn paratoi eu dysgwyr mewn ffordd effeithiol ar gyfer arholiadau.

### Cwestiwn Ymchwil 3: Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio (neu'n cymryd rhan mewn deialog broffesiynol) er mwyn cynorthwyo dysgwyr AHY?

20. Roedd hi'n arfer cyffredin i ddarparwyr AHY gydweithio gyda rhanddeiliaid amrywiol megis rhieni/gofalwyr, awdurdodau lleol, ymarferwyr iechyd a seicolegwyr addysg er mwyn cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu a chynnydd, iechyd a lles dysgwyr, ac addysg a phrofiadau byd gwaith. Daeth addysg a phrofiadau byd gwaith i'r amlwg fel maes arbennig y rhoddwyd pwyslais arno wrth i ddarparwyr gydweithio ag eraill; gyda dros hanner yr ymarferwyr yn amlygu sut y mae dysgu cysylltiedig â gwaith yn creu llwybrau ystyrlon i ddysgwyr yr oeddent wedi ymddieithrio o ddulliau academaidd mwy traddodiadol yn flaenorol.

21. Adroddodd pob UCD eu bod yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd. Lle'r oedd y cydweithio yn gweithio'n dda, roedd cyfathrebu a chyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth am gynnydd, anghenion a phrofiadau dysgwyr yn cael eu hwyluso gan staff cyswllt dynodedig neu'r awdurdodau lleol.

22. Fodd bynnag, adroddodd dros hanner y darparwyr AHY heb fod mewn UCD nad oeddent yn cael unrhyw gyswllt neu fawr iawn o gyswllt gydag ysgolion prif ffrwd. Arweiniodd hyn at heriau tybiedig megis prosesau rhannu data a

[1] Dylid nodi, ers cwblhau'r gwaith maes, bod CBAC wedi rhyddhau [eu manylebau drafft TGAU Gwneud-i-Gymru](#) i'w haddysgu o fis Medi 2025. Bydd y TAAU ar gael i ddysgwyr 14 i 16 oed o fis Medi 2027, a chaiff y manylebau eu rhyddhau yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27 ([Llywodraeth Cymru, 2024a](#)).

chyfathrebu anghyson er mwyn pennu'r hyn yr oedd dysgwyr wedi ei ddysgu yn flaenorol ac wrth gytuno ar sut y dylai cynnydd ymddangos i wahanol ddysgwyr.

## Cwestiwn Ymchwil 4: A yw ymarferwyr mewn UCDau yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol a chymorth er mwyn cynorthwyo wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu?

23. Adroddodd bron pob ymarferydd a oedd yn gweithio mewn UCD eu bod wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol mewn meysydd a oedd yn cynnwys cynllunio cwricwlwm, arweinyddiaeth ac asesu. Nododd yr ymarferwyr hyn bod ymgysylltu â dysgu proffesiynol o fudd iddynt a'i fod yn gwella eu gwybodaeth o agweddau allweddol ar Gwricwlwm i Gymru, megis y pedwar diben a themâu trawsgwricwlaidd.

24. Fodd bynnag, amlygodd rhai ymarferwyr y ffaith nad oedd y dysgu proffesiynol a gynigir gan gonsortia addysg ac awdurdodau lleol wedi rhoi sylw i'r heriau penodol y mae darparwyr AHY yn eu hwynebu, megis yr angen am ddosbarthiadau llai, staffio cyfyngedig, a chyfrannau uwch o ddysgwyr sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol a meddyliol ac anghenion cymorth ymddygiad.

25. Adroddodd rhai ymarferwyr AHY eu bod yn defnyddio hyfforddiant mewnol yn lle dysgu proffesiynol allanol. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys rhannu arbenigedd mewnol a chomisiynu/datblygu hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb i'r angen, megis cynorthwyo anghenion dysgu ychwanegol (ADY) penodol, cymorth ymddygiad, neu strategaethau addysgu a dysgu.

## Cwestiwn Ymchwil 5: A yw AHY heb fod mewn UCD yn cael cwricwlwm wedi'i gynllunio gan awdurdod lleol, yn unol â'r ddeddfwriaeth?

26. Er gwaethaf y ffaith bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cwricwla priodol i ddysgwyr sy'n cael eu cyfeirio at ddarpariaeth AHY heb fod mewn UCD, adroddodd dros hanner y darparwyr hyn eu bod yn datblygu eu dull eu hunain weithiau gan nad ydynt yn cael fawr iawn o gyfarwyddyd. Roedd rhai darparwyr yn barnu bod hyn wedi creu heriau iddynt wrth ddeall a gwireddu agweddau mandadol o'r Fframwaith. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw dysgwyr

ar draws darpariaeth AHY yn cael mynediad teg at ddysgu sy’n adlewyrchu gofynion y Fframwaith.

### Cwestiwn Ymchwil 6: Sut mae’r awdurdod lleol yn penderfynu pa ddarpariaeth AHY ddylid ei darparu i ddysgwyr?

27. Nododd holl gynrychiolwyr awdurdodau lleol bod anghenion dysgwyr yn ystyriaeth ganolog wrth benderfynu ar y math o ddarpariaeth AHY sy’n cael ei neilltuo, ynghyd â ffactorau fel iechyd meddwl, iechyd corfforol, cynnydd academaidd, ac ymgysylltu ag addysg prif ffrwd. Roedd penderfyniadau ynghylch lleoliadau AHY yn cynnwys nifer o randdeiliaid ac weithiau, defnyddiwyd prosesau ffurfiol megis Mynediad Teg neu ddarpariaeth arbenigol.

28. Adroddodd dros hanner y cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod ganddynt fecanweithiau sicrhau ansawdd yn eu lle i fonitro’r ddarpariaeth AHY a gynigir yn eu hawdurdodaeth er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr sy’n symud ar draws gwahanol leoliadau addysgol. Roedd y rhain yn cynnwys asesu addasrwydd y cwricwlwm a’i berthnasedd i anghenion dysgwyr; adolygu’r mesurau diogelu sydd yn eu lle; ac ansawdd cyffredinol y profiad dysgu.

## Meysydd i’w hystyried

29. Canfu’r gwaith maes dystiolaeth gyfyngedig i ddynodi a yw’r cwricwla a ddarperir gan awdurdodau lleol yn ddigonol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr AHY heb fod mewn UCD. Felly, mae’n bosibl y bydd angen mwy o gymorth gan awdurdodau lleol i gryfhau’r maes hwn. Dylid archwilio’r meysydd canlynol er mwyn hwyluso hyn:

    - dylai awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth AHY heb fod mewn UCD yn bodloni gofynion mandadol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob dysgwr AHY
    - dylid sefydlu sianelau cyfathrebu clir rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd, a darparwyr AHY heb fod mewn UCD ynghylch gweithredu’r cwricwlwm

- pan nad oes rhai yn bodoli, dylai awdurdodau lleol sefydlu prosesau sicrhau ansawdd diffiniedig er mwyn monitro ac adolygu'r ddarpariaeth AHY heb fod mewn UCD, gan neilltuo cyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd glir
- dylai awdurdodau lleol gynnal cyswllt rheolaidd gyda darparwyr AHY heb fod mewn UCD trwy gyfrwng swyddogion cyswllt dynodedig/aelod o staff enwebedig, fel bod llinell gymorth gyson ar gyfer ymholiadau cwricwlwm
- dylid cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddarparwyr AHY heb fod mewn UCD sy'n gweithredu o fewn neu sy'n cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol, fel eu bod yn ymwybodol o ofynion Cwricwlwm i Gymru ac yn cael eu cynorthwyo i'w bodloni mewn ffordd effeithiol

30. Amlygodd yr astudiaeth hon sawl maes lle y byddai modd gwella'r cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddarparwyr AHY mewn UCD a heb fod mewn UCD:

- dylid cynorthwyo cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng darparwyr AHY; byddai hyn yn galluogi ymarferwyr i rannu arbenigedd ynghylch y ffordd orau o gynorthwyo anghenion dysgwyr yng nghyd-destun heriau cyffredin
- mae cynnig dysgu proffesiynol mwy cydlynol ar draws awdurdodau lleol yn bwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson o ofynion Cwricwlwm i Gymru a'r cymorth y mae ei angen ar ddysgwyr AHY sy'n pontio ar draws darpariaeth; dylai'r dysgu proffesiynol a gynigir ystyried amrywiaeth cyd-destunau a dysgwyr AHY, er mwyn sicrhau bod y cynnig dysgu proffesiynol yn fwy perthnasol i ddarparwyr AHY
- dylid darparu enghreifftiau arfer da o arferion asesu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru i UCDau

31. Nododd y gwaith ymchwil yr angen am ddulliau mwy cadarn er mwyn hwyluso gweithgarwch rhannu data effeithiol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, a darparwyr AHY er mwyn cynorthwyo cynnydd a threfniadau asesu wrth i ddysgwyr bontio.

32. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau er mwyn creu platfform digidol cyffredin diogel ar gyfer ysgolion prif ffrwd, awdurdodau lleol, a darparwyr AHY sy'n galluogi:

- diweddariadau amser-real ynghylch cynnydd dysgwyr
- trosglwyddo data asesu mewn ffordd ddi-dor
- cofnodi meysydd o ddiddordeb personol a strategaethau cymorth llwyddiannus
- cofnodi anghenion penodol dysgwyr (e.e., dysgwyr ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, ADY, iechyd corfforol) ac ymyriadau presennol

33. Byddai modd adnabod cydlynwyr pontio dynodedig ym mhob darpariaeth (prif ffrwd ac AHY) er mwyn hwyluso pontio esmwyth i ddysgwyr. Byddai'r rolau hyn yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth amserol a chyflawn yn cael ei rhannu rhwng darparwyr.

34. Byddai modd archwilio sefydlu fforymau ymarferwyr traws-sector rheolaidd er mwyn cynorthwyo wrth rannu arfer effeithiol a gwella profiadau pontio i ddysgwyr.

35. Bu'r broses o sicrhau crynodebau cwricwlwm UCD ar gyfer yr astudiaeth hon yn heriol. Dylai gwaith ymchwil pellach ystyried a oes heriau i UCDau wrth iddynt ddatblygu eu crynodebau, ac os felly, pa gymorth y byddai modd ei ddarparu efallai i oresgyn hyn.

36. Dylai gwaith ymchwil pellach ystyried pa welliannau y byddai modd eu gwneud i welededd ac argaeledd crynodebau cwricwlwm UCD, a dylid ystyried hefyd sut y gellir integreiddio asesiad o'r crynodebau mewn prosesau sy'n bodoli eisoes, fel arolygiadau Estyn.

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i arwain gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru. Mae Arad yn gweithio gyda nifer o sefydliadau fel rhan o raglen ymchwil eang, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy Ltd.

1.2. Mae'r gwerthusiad yn mabwysiadu dull dulliau cymysg, gan gynnwys arolygon ymarferwyr, arolygon rhieni/gofalwyr a dysgwyr, astudiaethau achos hydredol er mwyn deall teithiau gwireddu cwricwlwm ysgolion a sawl astudiaeth achos ansoddol yn seiliedig ar bynciau a thestunau sy'n archwilio elfennau penodol o Gwricwlwm i Gymru.

1.3. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil ansoddol ynghylch diwygio'r cwricwlwm mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), dan arweiniad Prifysgol Bangor mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Mae Pennod 1 yn cynnig trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol, cyn canolbwyntio ar y cyd-destun a chwestiynau ymchwil sydd wedi tywys yr astudiaeth ansoddol hon
- Mae Pennod 2 yn nodi'r dull a fabwysiadwyd o ran y fethodoleg, gan ddisgrifio'r dull wrth recriwtio cyfranogwyr i'r gwerthusiad, y dulliau casglu data a dadansoddi, a chyfyngiadau'r gwaith ymchwil
- Mae Pennod 3 yn cynnig trosolwg o ganfyddiadau'r gwaith ymchwil
- Mae Pennod 4 yn cyflwyno'r casgliadau a'r meysydd i'w hystyried

## Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol

1.4. Nod y gwerthusiad yw asesu'r graddau y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn gweithio yn ôl y disgwyl ac fel y cânt eu nodi yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (y Fframwaith) (Llywodraeth Cymru, 2025a). Amcanion y gwerthusiad yw:

- 

- adolygu’r theori newid yn yr Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer gwerthuso’r diwygiadau i’r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022a), a gwneud diwygiadau yn ôl yr angen, yn arbennig er mwyn rhoi rhagor o ystyriaeth i degwch o fewn y theori newid
- ystyried y graddau y mae’r mecanweithiau yn y theori newid, a’r gweithgareddau disgwyliedig, yr allbynnau a’r canlyniadau tymor byr/canolig yn cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl
- archwilio graddau’r amrywiad rhwng dulliau ar draws ysgolion a darpariaeth arall[2] a disgrifio pa ffactorau a/neu amodau sy’n cefnogi neu’n atal y diwygiadau rhag cael eu gwireddu mewn ffordd effeithiol a pha gymorth ychwanegol y mae ei angen
- archwilio safbwyntiau, arferion a phrofiadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaeth arall mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae safbwyntiau, profiadau ac arferion yn gwahaniaethu ar gyfer gwahanol fathau o ymarferwyr ac ysgolion, a pham
- archwilio safbwyntiau, arferion a phrofiadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn UCDau a darpariaeth AHY arall mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, yn ogystal â swyddogion awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am gynllunio’r cwricwlwm ar gyfer darpariaeth AHY heb fod mewn UCD.
- archwilio safbwyntiau a phrofiadau dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaeth arall mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, yn ogystal â’u rhieni/gofalwyr, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae profiadau yn gwahaniaethu ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr, a pham
- llunio casgliadau ac amlygu meysydd i’w hystyried ar gyfer polisi ac arfer ar draws y system gyfan er mwyn cynorthwyo i wireddu diwygiadau asesu ac i’r cwricwlwm yn y dyfodol, a’u heffeithiolrwydd, gan sicrhau bod y rhain

[2] O fewn y prif amcanion gwerthuso, defnyddir y term ‘ysgol’ i gyfeirio at amrediad o leoliadau addysgol gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig, a darpariaeth AHY, gan gynnwys UCDau. Yn yr adroddiad hwn, mae cyfeiriadau at AHY/darpariaeth AHY yn cyfeirio at UCDau a darpariaeth AHY heb fod mewn UCD. Pan fo hynny’n berthnasol, gwneir cyfeiriadau at ‘UCDau’, ‘AHY heb fod mewn UCD neu ‘ysgolion prif ffrwd’ lle y mae canfyddiadau’n ymwneud â’r grwpiau penodol hyn.

yn ystyried ehangder y diwygiadau ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, cyd-destunau a lleoliadau yn llawn

## Cefndir a chyd-destun

1.5. Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Mae gan Gwricwlwm i Gymru bedwar diben sy'n fan cychwyn ac yn ddyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), 'Gwella Ysgolion yng Nghymru' (OECD, 2014) a Dyfodol Llwyddiannus (Donald sôn, 2015), yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad annibynnol Athro Graham Donald sôn o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, yn nodi'r rhesymeg dros y diwygiadau, yn ogystal ag argymhellion ynghylch sut i gynllunio cwricwlwm newydd a fydd yn addas i Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae gofyn i bob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd ar lefel genedlaethol, gan alluogi dysgwyr i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm trwy ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

1.6. O dan Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae sgiliau cyfannol i'w datblygu ar draws ystod eang o ddysgu ac addysgu yn sail i'r pedwar diben. Y sgiliau cyfannol hyn yw: creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu. Trefnir pynciau o gwmpas chwe Maes: Y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Ar draws y chwe maes hwn, o fewn canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru, ceir 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig mandadol sy'n sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio

cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan bod yn rhaid i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o’r holl ddatganiadau (Llywodraeth Cymru, 2024b).

1.7. Fel rhan o Gwricwlwm i Gymru, mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cynnydd yn y sgiliau hyn ar draws pob maes o’r cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion ymwreiddio themâu trawsgwricwlaidd yn y dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae’r themâu trawsgwricwlaidd yn cynnwys Addysg cydberthynas a rhywioldeb, Hawliau dynol, Amrywiaeth, Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, a Chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

1.8. Adeg y gwaith ymchwil hwn, roedd Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl ddysgwyr cynradd ac ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

1.9. Mae’r adran hon yn cynnig trosolwg byr er mwyn cynnig rhywfaint o gefndir a chyd-destun i’r astudiaeth o adolygiad o lenyddiaeth sy’n bodoli eisoes ynghylch y prif agweddau ar gynllunio cwricwlwm ac asesiadau sy’n ymwneud ag AHY yng Nghymru.

## Rôl, strwythur a chomisiynu AHY yng Nghymru

1.10. Trefnir darpariaeth AHY gan awdurdodau lleol yng Nghymru i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy’n wynebu rhwystrau wrth ddysgu sy’n golygu bod mynychu ysgolion prif ffrwd neu arbennig yn anaddas (Hughes, 2019; Llywodraeth Cymru, 2024c). Efallai y bydd gofyn i ddysgwyr gael AHY yn lle mynychu ysgolion prif ffrwd am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys rhesymau cymdeithasol, emosiynol ac oherwydd anawsterau ymddygiadol, amgylchiadau teuluol heriol a materion personol. Gallai eraill sy’n mynychu darpariaeth AHY fod yn ddysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, y rhai sy’n gwrthod mynychu ysgol yn barhaus, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu sy’n wynebu heriau penodol o ran sgiliau llythrennedd neu rifedd.[3] Roedd Deddf Addysg 1996 yn nodi manylion y sail gyfreithiol ar gyfer AHY, gan amlygu’r ffaith bod angen i awdurdodau lleol drefnu darpariaeth addysg addas mewn ysgol neu fel arall i ddysgwyr na fyddant yn ei chael efallai oherwydd salwch, gwaharddiad neu ffactorau eraill.

[3] Gweler y papur a gyflwynwyd gan Estyn fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg y Senedd i AHY.

1.11. Y math mwyaf cyffredin o ddarpariaeth AHY yng Nghymru yw UCDau. Mae UCD yn fath o ysgol a gaiff ei sefydlu a'i chynnal gan awdurdod lleol ac sy'n cynnig lleoliadau tymor byr neu ganolig; cymorth ailintegreiddio i ddysgwyr sy'n dychwelyd i ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig; a/neu baratoi ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth (Hughes, 2019; Llywodraeth Cymru, 2014; Llywodraeth Cymru, 2024c).

1.12. Yn ychwanegol i UCDau, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu AHY trwy gyfrwng darpariaethau eraill amrywiol. Mae enghreifftiau yn cynnwys colegau addysg bellach, tiwtora unigol yn y cartref neu mewn ysbyty, addysg a phrofiadau byd gwaith, sefydliadau trydydd sector, a phecynnau wedi'u teilwra sy'n cyfuno gwahanol ddarparwyr a mynychu ysgolion prif ffrwd dan drefniant rhan-amser, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain (Estyn, 2023; Hughes, 2019).

1.13. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024, roedd 2,597 o ddysgwyr yng Nghymru wedi cael darpariaeth AHY (Llywodraeth Cymru, 2024d), yr oedd 44.7% ohonynt wedi cofrestru gyda UCD. Gall dysgwyr fynychu darpariaeth AHY dan drefniant amser llawn, rhan-amser neu ar sail cofrestriad deuol. Cynlluniwyd y trefniadau hyn i gynnig addysg addas ar sail anghenion unigryw dysgwyr. Efallai y bydd gofyn i ddysgwyr gael lleoliad AHY er mwyn cynorthwyo pontio fesul cam, diwallu eu hanghenion meddygol neu iechyd meddwl, neu er mwyn ymateb i'w hanghenion ymddygiadol (Estyn, 2023) a gall darpariaeth AHY hwyluso'r pontio rhwng camau addysg (cynradd, uwchradd, ôl-16, hyfforddiant pellach) neu'r gweithle. Bwriad polisïau cofrestriad deuol yw annog ysgolion prif ffrwd i gadw mewn cysylltiad â dysgwyr a pharhau i ymwneud â'u cynnydd wrth iddynt fynychu darpariaethau AHY (Llywodraeth Cymru, 2020).

1.14. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar anghenion y dysgwr, felly nid oes canllawiau pendant ar gael sy'n nodi am faint mor hir y dylai dysgwyr fod yn manteisio ar ddarpariaeth AHY. Fodd bynnag, amlygodd ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i AHY (Senedd Cymru, 2019) y dylai'r system annog dull sy'n cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddysgwyr i ailintegreiddio ag addysg prif ffrwd, os yw hynny'n ddiogel ac yn briodol. Adlewyrchir hyn yng nghanllawiau statudol[4]

---

[4] Am drosolwg cynhwysfawr o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer darparwyr AHY, gweler adran Cynllunio eich Cwricwlwm ar Hwb

Cwricwlwm i Gymru, sy'n cyfeirio at gynorthwyo ailintegreiddio a phontio fel nodwedd allweddol darpariaeth AHY.

1.15. Amlygodd adroddiad gan Lywodraeth Cymru (2020) bod rhai ysgolion yn comisiynu darpariaeth i gefnogi eu cynnig addysgol i ddysgwyr. Mewn rhai achosion, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod yr awdurdod lleol wedi neilltuo cyllid i ysgolion i gomisiynu darpariaeth allanol yn hytrach na chynnig darpariaeth ganolog. Mewn achosion eraill, mae ysgolion wedi defnyddio eu cyllidebau mewnol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr.

1.16. Dim ond awdurdodau lleol sy'n gallu comisiynu AHY gan ei fod wedi cael ei ddiffinio dan adran 19A Y Ddeddf Addysg (1996). Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Addysg (2002) a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009) yn rhoi'r grym i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gomisiynu gwasanaethau allanol, gan gynnwys gwasanaethau addysgol, ac mae'n rhain yn cael eu defnyddio gan ysgolion i gynorthwyo eu cynnig cwricwlwm a chadw eu dysgwyr yn yr ysgol.

## Cynllunio a gwireddu cwricwlwm

1.17. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (2021) yn rhoi dyletswydd ar y cyd ar yr athrawon cyfrifol, pwyllgorau rheoli, a'r awdurdod lleol i gynllunio a gwireddu'r cwricwlwm mewn UCDau. Yn achos darpariaeth AHY arall, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau cwricwlwm sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol (Llywodraeth Cymru, 2024e).

1.18. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a nodir yn neddfwriaeth Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024e), rhaid i'r cwricwlwm o fewn darpariaeth AHY:

- alluogi dysgwyr i ddatblygu mewn ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- darparu cynnydd priodol i ddysgwyr
- cael ei hysbysu gan ddatblygiad a chynhaliaeth dealltwriaeth gyffredin o gynnydd (fel y caiff ei ddiffinio yn Adran 57 y Ddeddf[5])
- bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd, a doniau
- bod yn eang a chytbwys, gymaint ag y bo modd

[5] Nodyn Esboniadol a Chyfarwyddyd Dan Adran 57 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

- cynnwys y Maes Iechyd a Lles
- rhoi sylw i'r cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh), mewn ffordd sy'n briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr
- datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol, gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn sefyll law yn llaw â chanllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru

1.19. Rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth hefyd, os yw hynny'n rhesymol bosibl ac yn briodol, sy'n bodloni holl elfennau mandadol eraill Cwricwlwm i Gymru. Efallai y bydd angen datgymhwyso neu addasu'r cwricwlwm, er enghraifft os yw dysgwr yn cael triniaeth am salwch difrifol ac nid yw'n rhesymol disgwyl y gellir cyflawni gofynion Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024e).

1.20. Mae Rhan 4 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn amlinellu'r dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnydd ac asesu i ysgolion, UCDau, lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariannir, a darpariaeth AHY. Mae'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru statudol ar gyfer AHY yn amlinellu hefyd y dylai gweithgarwch cynllunio a gwireddu cwricwlwm:

- feithrin a chryfhau iechyd a lles pob dysgwr
- annog cydweithio systematig rhwng dysgwyr, rhieni/gofalwyr, ysgol a darparwyr AHY
- cynnig mynediad at gwricwlwm cynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr
- cynorthwyo ailintegreiddio dysgwyr AHY, neu eu cam o bontio i addysg prif ffrwd, darpariaeth arbenigol, addysg bellach, hyfforddiant, neu fyd gwaith (Llywodraeth Cymru, 2024c)

## Asesu a chynnydd

1.21. Mae cynnydd dysgwyr ar hyd y continwwm dysgu o 3 i 16 oed yn rhan ganolog o Gwricwlwm i Gymru. Mae gofyn i awdurdodau lleol a UCDau wneud trefniadau asesu ar gyfer dysgwyr AHY sy'n: (i) asesu'r cynnydd a gaiff ei wneud gan ddysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm a luniwyd ar eu cyfer; a (ii) ystyried y camau nesaf o ran eu cynnydd er mwyn deall pa addysgu/dysgu sy'n ofynnol. Wrth

gynllunio a gwireddu profiadau dysgu, dylai ymarferwyr fod yn glir ynghylch pam bod asesu yn angenrheidiol, yr hyn y mae modd ei sicrhau ohono, a sut y defnyddir y canlyniadau (Llywodraeth Cymru, 2024e, 2024f).

1.22. Dylai gweithgarwch cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm gynorthwyo dysgwyr i ailintegreiddio i a/neu bontio o AHY i ysgol prif ffrwd, darpariaeth arbenigol, addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth (Llywodraeth Cymru, 2024e). Dylid parhau i adolygu cynnydd dysgwyr trwy gydol y flwyddyn ysgol, a dylid cynnal deialog agored rhwng rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu/cadw dealltwriaeth o gryfderau, cyflawniadau, meysydd gwella ac unrhyw rwystrau dysgu ar gyfer dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2024e, 2024f, 2024g).

## Cydweithio gyda rhanddeiliaid

1.23. Dylai UCDau, a sefydliadau eraill sy'n cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol i ddarparu AHY heb fod mewn UCD, sicrhau bod y wybodaeth ganlynol ar gael i rieni/gofalwyr bob tymor a bob blwyddyn:

- manylion byr am y cynnydd o ran dysgu ar draws y cwricwlwm
- sylwebaeth fer ynghylch lles y dysgwr
- crynodeb o anghenion cynnydd a'r camau nesaf
- crynodeb o gofnod presenoldeb eu plentyn, gan gynnwys absenoldebau anawdurdodedig
- canlyniadau unrhyw asesiadau a chymwysterau a sicrhawyd
- cyngor byr ynghylch sut y gall rhieni/gofalwyr gynorthwyo cynnydd eu plentyn (Llywodraeth Cymru, 2021)

1.24. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru (2021) yn nodi'r rhwymedigaeth i awdurdodau lleol a'r ymarferydd sy'n gyfrifol am y UCD i sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni gofynion. Dylid rhannu'r cyfrifoldeb hwn gyda phwyllgor rheoli UCDau unigol hefyd, lle y mae trefniadau o'r fath yn bodoli (Llywodraeth Cymru, 2021). Dylai pwyllgor rheoli UCDau gynnwys y pedwar grŵp gorfodol o randdeiliaid: rhieni/gofalwyr, staff UCD, yr awdurdod lleol, a'r gymuned (Llywodraeth Cymru, 2014).

## Nodau’r astudiaeth a chwestiynau ymchwil

1.25. Roedd yr astudiaeth hon yn rhoi sylw i ddau nod canolog a oedd yn ymwneud â darpariaeth AHY, sef:

- deall sut y gweithredir canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn ymarferol
- archwilio sut y caiff darparwyr AHY eu cynorthwyo i weithredu Cwricwlwm i Gymru

1.26. Ar ôl cael adborth mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar AHY, datblygodd y tîm ymchwil restr o brif gwestiynau ymchwil ac is-gwestiynau sydd wedi tywys y gweithgarwch casglu data ar gyfer yr astudiaeth hon. Roedd y rhain fel a ganlyn:

Cwestiwn Ymchwil 1: Ym mha ffyrdd y mae darparwyr AHY yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

- Sut mae ymarferwyr wedi addasu eu haddysgu i fodloni anghenion dysgwyr unigol ers cyflwyno Cwricwlwm i Gymru?
- I ba raddau ac ym mha ffyrdd y caiff iechyd a lles pob dysgwr ei feithrin a’i gryfhau?
- A oes mynediad at gwricwlwm cynhwysol sy’n canolbwyntio ar anghenion unigol pob dysgwr?
- A yw cwricwlwm yr awdurdod lleol yn cynnwys yr agweddau mandadol a’r rhai y mae’n rhaid i’r awdurdod lleol eu gweithredu os yw hynny’n ymarferol ac yn briodol?

Cwestiwn Ymchwil 2: I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae Cwricwlwm i Gymru a’r trefniadau asesu wedi galluogi darparwyr AHY i gynorthwyo eu dysgwyr? (Lle y mae trefniadau yn cynnwys cynllunio; addysgu a dysgu; adolygu’r cwricwlwm; ac asesu).

- Sut mae hyn yn cynorthwyo tegwch ac amrywiaeth?
- A oes angen unrhyw gymorth ychwanegol ar ymarferwyr er mwyn iddynt alinio eu harfer gyda disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru?

Cwestiwn Ymchwil 3: Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio (neu'n cymryd rhan mewn deialog broffesiynol) er mwyn cynorthwyo dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol?

- Sut mae'r sgyrsiau hyn yn hysbysu penderfyniadau am gynnydd a gwireddu'r cwricwlwm?
- A yw dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu cynorthwyo i ailintegreiddio neu bontio i ddarpariaeth prif ffrwd neu arbenigol, a/neu'n cael eu galluogi i symud tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu fyd gwaith?

Cwestiwn Ymchwil 4: A yw ymarferwyr mewn UCDau yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol a chymorth er mwyn cynorthwyo wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu?

Cwestiwn Ymchwil 5: A yw AHY heb fod mewn UCD yn cael cwricwlwm wedi'i gynllunio gan awdurdod lleol, yn unol â'r ddeddfwriaeth?

- Os na, pa adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn llenwi'r bwlch hwn?
- Os ydynt, a yw hwn yn ddigonol i fodloni anghenion dysgwyr?

Cwestiwn Ymchwil 6: Sut mae'r awdurdodau lleol yn penderfynu pa ddarpariaeth AHY ddylid ei darparu i ddysgwyr? A ydynt yn wynebu heriau wrth sicrhau darparwyr sy'n gallu gweithredu cwricwlwm yr awdurdod lleol?

# 2. Methodoleg

2.1. Mae’r bennod hon yn amlinellu’r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod y gwaith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau recriwtio, gwaith maes a gynhaliwyd, y dull er mwyn dadansoddi a chyfyngiadau’r gwaith ymchwil.

2.2. Mabwysiadwyd dull ymchwil ansoddol ar gyfer yr astudiaeth hon. Un o brif fanteision gwaith ymchwil ansoddol yw ei fod yn caniatáu i ymchwilwyr gael dealltwriaeth fanwl o brofiadau cyfranogwyr a’r cyd-destunau penodol yr oeddent yn gweithio ynddynt.

### Recriwtio a’r sampl

2.3. Nod y dull recriwtio a samplu oedd recriwtio unigolion mewn amrediad o rolau sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth AHY ar draws Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys ymarferwyr sy’n cynllunio’r cwricwlwm ac sy’n addysgu mewn darpariaeth AHY, a chynrychiolwyr o awdurdodau lleol megis swyddogion cynhwysiant a’r rhai sy’n ymwneud ag atgyfeirio, comisiynu, a sicrhau’r cwricwlwm. Y rhesymeg dros hyn oedd dangos amrywiaeth y dulliau a’r profiadau ar draws y ddarpariaeth o ran gwireddu Cwricwlwm i Gymru.

2.4. Estynnwyd gwahoddiad i UCDau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn un neu fwy o’r astudiaethau a gynhaliwyd yn ystod ton gyntaf y gwaith ymchwil fel rhan o’r gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r cyfle i ymgysylltu â’r gwerthusiad i UCDau trwy sianelau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cylchlythyr Dysg a Hwb), yn ogystal â thrwy bartneriaethau a rhwydweithiau addysg helaeth y partneriaid cyflawni yn y gwerthusiad, sy’n sefydliadau addysg uwch.  Estynnwyd gwahoddiad i UCDau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn unrhyw un o’r bedair astudiaeth neu’r astudiaeth Teithiau Cwricwlwm[6] trwy lenwi ffurflen ar-lein. Cysylltwyd â darparwyr AHY heb fod mewn UCD yn uniongyrchol hefyd, a’u gwahodd i gymryd rhan trwy wybodaeth a oedd ar gael i’r cyhoedd, a dosbarthodd swyddogion Llywodraeth Cymru wahoddiad i gymryd rhan i nifer fach o ddarparwyr AHY heb fod mewn UCD, yr oedd eu manylion cyswllt yn cael eu dal. Defnyddiwyd rhwydwaith penaethiaid UCD ADEW

[6] Roedd agwedd Teithiau Cwricwlwm y gwerthusiad yn cynnwys astudiaethau achos hydredol o 10 ysgol ar draws Cymru dros gyfnod y gwerthusiad.

(Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) i gysylltu â Chyfarwyddwyr Addysg mewn awdurdodau lleol, a gofynnwyd iddynt rannu gwybodaeth am yr ymchwil gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am AHY fel rhan o'u rôl mewn adrannau perthnasol (megis timau addysg a chynhwysiant).

2.5. At ei gilydd, roedd 36 unigolyn wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, gan gynnwys cynrychiolwyr o naw UCD, naw awdurdod lleol a 10 darparwr AHY heb fod mewn UCD, yr oeddent yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr uwchradd hyd at TGAU. Cynrychiolwyd pob rhanbarth yng Nghymru (Gogledd Cymru, y Canolbarth a'r Gorllewin, Canol De Cymru a De Ddwyrain Cymru) yn y sampl, gan gynnwys lleoliadau mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae saith o'r naw UCD yn cynnig rhyw fath o ddarpariaeth gynradd, ac mae pob un ohonynt yn cynnig darpariaeth uwchradd. Mae tri o'r deg darparwr AHY heb fod mewn UCD yn cynnig cymorth i ddysgwyr oedran cynradd.

2.6. Cynhaliwyd pump o'r trafodaethau gyda chynrychiolwyr UCD ac awdurdod lleol cysylltiedig yn bresennol. Cynhaliwyd yr holl drafodaethau eraill gyda chynrychiolwyr UCD, AHY heb fod mewn UCD ac awdurdodau lleol yn unigol.

2.7. Cyflwynir crynodeb o'r cyfranogwyr/lleoliadau a oedd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: UCDau, awdurdodau lleol, ac AHY heb fod mewn UCD a gynrychiolwyd yn y gwaith maes (a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2024)

| **Rhanbarth** | **Nifer y UCDau a gynrychiolwyd** | **Nifer yr awdurdodau lleol a gynrychiolwyd** | **Nifer y darpariaethau AHY heb fod mewn UCD a gynrychiolwyd** |
|---|---|---|---|
| Gogledd | 3 | 3 | 1 |
| Canolbarth a Gorllewin | 3 | 2 | 1 |
| Canol De Cymru | 1 | 2 | 4 |
| De Ddwyrain | 2 | 2 | 4 |

Ffynhonnell: Data cynradd a gasglwyd gan yr awduron

## Dulliau ymchwil

2.8. Casglwyd y data trwy gynnal trafodaethau ar-lein (Microsoft Teams). Roedd y trafodaethau ymchwil wedi para tua 60 munud, a gwnaethpwyd recordiad sain ohonynt ar ôl sicrhau caniatâd y cyfranogwyr.

2.9. Mabwysiadwyd dull lled-strwythuredig ar gyfer trafodaethau, gan ddefnyddio cwestiynau penagored a oedd yn cynnig yr hyblygrwydd i gydnabod amrywiaeth o bersbectifau ymhlith gwahanol unigolion a grwpiau o fewn y sampl. Roedd y cyfranogwyr ymchwil yn uwch arweinwyr a/neu'n staff addysgu darparwyr AHY neu'n gynrychiolwyr awdurdodau lleol a oedd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau un-i-un neu grŵp. Roedd y cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cynnwys cymysgedd o uwch arweinwyr a swyddogion megis y rhai sy'n gyfrifol am gynhwysiant neu am reoli UCDau a darpariaeth AHY.

2.10. Roedd trafodaethau a gafwyd yn ystod gweithdy gyda chynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 wedi cyfrannu at yr offerynnau ymchwil, ac roeddent yn cyd-fynd â'r dull cyffredinol ar gyfer y gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru. Mae modd gweld y canllawiau trafod llawn yn Atodiad B.

2.11. Nod y trafodaethau oedd caniatáu i gyfranogwyr o ddarpariaeth AHY mewn UCD a heb fod mewn UCD ac awdurdodau lleol i ddisgrifio eu persbectifau a'u harferion mewn perthynas â gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth AHY.

2.12. Un o'r modelau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwil hwn yw theori gweithredu (Theory of Action). Mae'r theori gweithredu yn seiliedig ar fodel teirochrog sy'n canolbwyntio ar: ddeall pa gamau y mae arweinwyr addysg ac ymarferwyr yn eu cymryd i gynorthwyo gweithrediad Cwricwlwm i Gymru; archwilio'r cyfyngiadau sy'n dylanwadu ar ac sy'n siapio'r penderfyniadau hynny a'r ymddygiad hwnnw sy'n gysylltiedig â gweithredoedd; ystyried yr hyn y maent yn eu hystyried yw canlyniadau'r gweithredoedd hyn. Felly, croesgyfeiriwyd y canllawiau trafod pynciau a thestunau yn erbyn y model theori gweithredu wrth eu cynllunio. Roedd defnyddio model theori gweithredu wedi cynnig strwythur gwerthfawr er mwyn deall yr hyn yr oedd darparwyr AHY yn ei wneud mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru a'u tybiaethau o effaith y gweithgareddau hyn sy'n dod i'r amlwg. Defnyddiwyd y model

theori gweithredu hefyd fel rhan o'r broses ddadansoddi, a drafodir yn yr adran nesaf.

## Dadansoddi

### Trawsgrifiadau trafodaethau

2.13. Trwy gadw at ganllawiau Braun a Clarke (2006; 2013) ar gyfer dadansoddi cynnwys thematig, mabwysiadodd yr ymchwilwyr ddull anwythol wrth godio data. Roedd hyn yn caniatáu i'r ymchwilwyr adnabod themâu o fewn y data a oedd yn digwydd yn naturiol, heb unrhyw ragdybiaethau, a chyfyngu ar ailadrodd pan welwyd gorgyffwrdd rhwng atebion ymchwil. Defnyddiodd yr ymchwilwyr offeryn meddalwedd NVivo er mwyn rheoli a dadansoddi symiau mawr y data ansoddol mewn ffordd effeithlon a thrylwyr. Dilynwyd proses chwe cham Braun a Clarke (2022) ar gyfer dadansoddi:

- ymgyfarwyddo â'r data (darllen pob trawsgrifiad o'r trafodaethau er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r cynnwys a drafodwyd)
- creu codau cychwynnol er mwyn adnabod data nodedig (creu ac adolygu'r codau mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil a'r pynciau a thestunau a nodwyd yn y canllawiau trafod)
- chwilio am themâu (roedd trefnu'r codau hyn yn grwpiau ar sail elfennau cyffredin wedi galluogi i themâu gael eu nodi)
- adolygu themâu (mireinio'r themâu hyn er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r data yn fanwl a'u bod yn wahanol i'w gilydd)
- diffinio ac enwi themâu (diffinio'r hyn y mae pob thema yn ei gynrychioli yn glir, a neilltuo enwau cryno iddynt sy'n crisialu eu hanfod)
- llunio'r adroddiad (cyflwyno'r themâu mewn naratif cydlynol sy'n rhoi sylw i'r cwestiynau ymchwil)

2.14. Ar ôl gwneud trawsgrifiadau'r trafodaethau yn rhai dienw, a sicrhau eu bod yn gywir, ailddarllenodd yr ymchwilwyr y trawsgrifiadau sawl gwaith er mwyn cael dealltwriaeth ddofn o'r cynnwys ac er mwyn adnabod patrymau rhagarweiniol neu syniadau a oedd yn codi dro ar ôl tro.

2.15. Roedd y cam nesaf yn golygu creu codau cychwynnol o’r data, proses a hwyluswyd gan nodweddion codio NVivo. Roedd hyn yn golygu labelu adrannau o’r data gyda ‘chodau’ sy’n cynrychioli cysyniadau neu syniadau penodol. Trwy amlygu adrannau perthnasol y trawsgrifiad a neilltuo codau, bu’r tîm ymchwil yn categoreiddio’r data mewn ffordd systematig.

2.16. Ar ôl gwneud gwaith mireinio, bu’r tîm ymchwil yn archwilio’r themâu yn erbyn y cwestiynau ymchwil, gan ddechrau creu’r naratif a gyflwynir yn Adran 3 yr adroddiad hwn. Cyfeiriwyd at y model theori gweithredu fel rhan o’r broses a’r dadansoddiad hwn, fel bod y cydberthnasoedd rhwng gweithredoedd (a adroddwyd gan gyfranogwyr), y cyfyngiadau (neu’r amodau sy’n dylanwadu ar y gweithredoedd hynny) a’r canlyniadau yn cael eu hystyried. Bu o leiaf ddau ymchwilydd a fu’n ymwneud â’r astudiaeth hon yn cymryd rhan ym mhob rhan o’r broses ar ei hyd.

## Adolygiad o grynodebau cwricwlwm

2.17. Mae’n ofyniad mandadol bod UCDau yn cyhoeddi crynodeb o’u cwricwlwm cyn dechrau pob blwyddyn academaidd, a’i ddiweddaru pan fo hynny’n briodol (Llywodraeth Cymru, 2024e). Nid yw Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn nodi y dylid cyhoeddi crynodeb cwricwlwm ar-lein. Yn ystod y gwaith cychwynnol i gynllunio’r astudiaeth hon, bwriadwyd gofyn i bob UCD a chynrychiolydd awdurdod lleol yn y sampl i rannu copi o’u crynodeb cwricwlwm, pan oedd un ar gael. Roedd tri diben i hyn: (i) byddai’n cynnig dirnadaeth o’r ymwybyddiaeth o’r gofyniad hwn; (ii) byddai modd dadansoddi’r cynnwys er mwyn archwilio i ba raddau y mae’r crynodebau yn cydymffurfio â chanllawiau Cwricwlwm i Gymru; (iii) byddai modd iddo gadarnhau rhai o’r themâu/materion a godwyd yn ystod trafodaethau. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion i sicrhau crynodebau cwricwlwm, dim ond tri ymarferydd ymatebodd i’r cais.

2.18. Ystyriwyd cysylltu â phob UCD a swyddog awdurdod lleol perthnasol i gael y wybodaeth hon. Fodd bynnag, roedd pryder y gallai hyn beri risg o ran dilysrwydd oherwydd efallai y byddai’r crynodebau cwricwlwm yn cael eu paratoi yn benodol ar gyfer y gwaith maes hwn, oherwydd y byddai sylw yn cael ei dynnu i’r gofyniad.

2.19. Cydnabyddir y byddai wedi bod o fudd adolygu cynnwys y crynodebau hyn yn fanylach i gyd-fynd â’r dadansoddiad o’r data trafodaethau a chynnig dirnadaeth bellach ac enghreifftiau y byddent yn rhoi sylw i’r cwestiynau ymchwil. Fodd bynnag,

ni fyddai wedi bod modd ffurfio casgliadau ystyrlon o dri chrynodeb yn unig. Felly, cytunwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru peidio bwrw ymlaen gyda'r elfen hon o'r fethodoleg; fodd bynnag, gwneir argymhelliad yn nes ymlaen yn yr adroddiad i ystyried sut y byddai modd integreiddio coladiad ac asesiad o'r crynodebau hyn mewn prosesau sy'n bodoli eisoes, megis arolygiadau Estyn.

## Cyfyngiadau

2.20. Isod, amlinellir cyfyngiadau'r gwaith ymchwil a'r mesurau lliniaru.

2.21. Roedd tri deg chwech ymarferydd wedi cytuno cymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd cyfansoddiad y sampl yn cynnwys gwahanol unigolion ar draws naw UCD, naw awdurdod lleol a 10 darparwr AHY heb fod mewn UCD. Nid oedd darparwyr AHY Cymraeg yn rhan o'r sampl, fodd bynnag, pan fo hynny'n berthnasol e.e. mewn ardaloedd lle y gwelir lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg, trafodwyd yr iaith Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog.

2.22. Gallai natur wirfoddol cymryd rhan fod wedi effeithio ar gymhelliad rhai unigolion i gymryd rhan hefyd. Er bod y safbwyntiau amrywiol hyn yn werthfawr, roedd y sampl yn fach ac nid yw'n cynrychioli pob math o ddarpariaeth AHY ar draws Cymru. Felly, ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau.

2.23. Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn cynnig darlun o'r sefyllfa ar un adeg, gan gyfyngu ar y gallu i archwilio 'taith' Cwricwlwm i Gymru UCDau ac AHY heb fod mewn UCD, a'u cynnydd gydag amser.

2.24. O ganlyniad i'r cyfyngiadau o ran yr amser a oedd ar gael ar gyfer trafodaethau (roedd y trafodaethau gyda chyfranogwyr wedi para 60 munud ar gyfartaledd), nid oedd modd cael ymdeimlad llawn o'r gwaith cynllunio a wnaethpwyd a lefel y manylder a fu ynghlwm, bob amser.

2.25. Y tu hwnt i'r grwpiau cyfranogwyr a gafodd eu recriwtio, ceir rhanddeiliaid eraill sy'n cyflawni rôl allweddol wrth ddatblygu cwricwlwm AHY a chynorthwyo pontio dysgwyr i ac o UCDau, megis rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion prif ffrwd, na chawsant eu cynnwys yn y sampl.

2.26. Nid oedd yr elfen hon o'r gwaith ymchwil yn cynnwys persbectif dysgwyr (h.y., eu profiadau o'r cwricwlwm mewn darpariaeth AHY), ond byddai modd archwilio hyn

mewn meysydd eraill o'r gwerthusiad ffurfiannol (o fewn gwaith ymchwil ansoddol a gynlluniwyd gyda dysgwyr yn benodol). Mae rhai o'r themâu a'r ddirnadaeth sy'n codi o'r gwaith casglu data yn cynnig elfennau i'w harchwilio gyda dysgwyr trwy gamau eraill y gwerthusiad.

2.27. Roedd ymchwilwyr yn ymwybodol o'r angen i liniaru risg tuedd dymunoldeb cymdeithasol[7] gan gyfranogwyr, y gallent fod wedi bod yn dueddol o gynnig ymatebion yr oeddent yn teimlo eu bod yn ddisgwyliedig neu'n cyd-fynd â normau polisi. Er enghraifft, efallai bod ymarferwyr yn yr astudiaeth hon wedi hepgor rhai manylion am yr heriau y maent wedi'u hwynebu wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru gan eu bod yn ofni y gallai adlewyrchu mewn ffordd negyddol arnynt neu'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig. I leihau'r risg hon gymaint ag y bo modd, pwysleisiodd yr ymchwilwyr sut y gallai adborth gonest gael dylanwad cadarnhaol ar welliannau i bolisi ac arfer, gan sicrhau y byddai pawb yn hollol ddienw yn yr adroddiad terfynol.

2.28. Mae tuedd ymchwilwyr yn gyfyngiad posibl ymchwil cymdeithasol a oedd wedi cael ei leihau gymaint ag y bo modd yn yr astudiaeth hon. Trwy gydol y broses hon, roedd yr ymchwilwyr wedi cadw dyddiadur myfyriol i fyfyrio am eu profiadau personol, eu hystyriaethau a'u rhyngweithiadau ar wahanol adegau yn ystod y broses ymchwil, o'r cynllunio i'r dadansoddi a'r adrodd. Roedd hyn yn cynyddu hunan-ymwybyddiaeth ac yn cynnig cyfleoedd i leihau tuedd neu fyfyrio ar ei effaith bosibl (Alvesson a Sköldberg, 2017).

[7] Mae 'tuedd dymunoldeb cymdeithasol' yn cyfeirio at duedd bosibl mewn gwaith ymchwil lle y gallai'r ateb a roddir gael ei effeithio gan yr hyn a ystyrir yn dderbyniol yn gymdeithasol gan yr ymatebydd.

# 3. Canfyddiadau

3.1. Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil, gan fanteisio ar sgyrsiau gyda'r 36 ymarferydd. O hyn ymlaen, mae'r term 'ymarferwyr' yn adlewyrchu'r rhai sy'n gweithio ym maes AHY i gynnig darpariaeth i ddysgwyr, ac mae 'cynrychiolwyr' yn dynodi'r rhai mewn awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am oruchwylio neu gomisiynu darpariaeth AHY. Mae'r offerynnau ymchwil yn Atodiad B yn nodi'r cwestiynau a ofynnwyd i ymarferwyr a'r cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn ystod y trafodaethau, ac mae pob un o'r rhain yn ceisio rhoi sylw i'r prif gwestiynau ymchwil.

3.2. Roedd yr ymchwil yn ceisio rhoi sylw i ddau nod canolog mewn perthynas â darpariaeth AHY. Y rhain oedd:

- deall sut mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu yn ymarferol
- archwilio sut caiff darparwyr AHY eu cynorthwyo i weithredu Cwricwlwm i Gymru

3.3. Ar ôl dadansoddi, nododd y tîm ymchwil y themâu canlynol ar sail y data a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth:

- Thema 1: Cynllun a hyblygrwydd y cwricwlwm
- Thema 2: Asesu a chynnydd
- Thema 3: Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

## Thema 1: Cynllun a hyblygrwydd y cwricwlwm

3.4. Mae'r thema hon yn cofnodi'r hyn yr oedd ymarferwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn barnu oedd y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwireddu Cwricwlwm i Gymru o fewn darpariaeth AHY.

**Thema 1: Cynllun a hyblygrwydd y cwricwlwm**

Roedd rhan fwyaf yr ymarferwyr AHY a chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn barnu bod hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru yn dwyn manteision niferus i ddysgwyr o fewn darpariaeth AHY. Roedd hyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn ystyried bod yr hyblygrwydd a gaiff ei neilltuo i gynllunio cwricwlwm pwrpasol o fewn y Fframwaith a ddiffiniwyd ar lefel genedlaethol, yn gweithio'n dda o ystyried cefndiroedd a nodweddion amrywiol y dysgwyr a gaiff eu cynorthwyo mewn darpariaeth AHY.
- Roedd rhan fwyaf y cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn amlygu sut y mae hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru yn hwyluso galluogedd a pherchnogaeth ymarferwyr i ddatblygu'r cwricwlwm. Roedd hyn yn galluogi ymarferwyr mewn darpariaeth AHY i feithrin cysylltiadau lleol gyda grwpiau cymunedol er mwyn cynnig cyfleoedd mwy dilys a lleol i'w dysgwyr.
- Roedd hi'n gyffredin i ymarferwyr AHY fyfyrio ar y ffordd y mae dulliau hyblyg yn arwain at amgylcheddau dysgu mwy cefnogol a phrofiadau amrywiol i ddysgwyr. Roedd dull mwy holistaidd o ddysgu sy'n gwerthfawrogi lles a datblygiad personol yn cyfrannu at ymddygiad gwell hefyd yn ôl rhai ymarferwyr.
- Nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr AHY a chynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd bod Cwricwlwm i Gymru yn hwyluso integreiddio iechyd a lles gyda phob agwedd ar y profiad dysgu. Teimlwyd bod yr integreiddio hwn yn cynorthwyo iechyd a lles dysgwyr mewn ffordd fwy trawsgwricwlaidd.
- Adroddodd y rhan fwyaf o ddarparwyr AHY eu bod yn teilwra eu cwricwla i fodloni anghenion a dyheadau dysgwyr. Nododd nifer bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau dysgwyr tuag at ddysgu, gan arwain at ymdeimlad o gyflawniad a mwy o hunan-barch.
- Amlygodd tua hanner yr ymarferwyr AHY bod gweithredu Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at fwy o bwyslais ar lais y dysgwr a'u cynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm.

Ystyriwyd bod hyn wedi grymuso dysgwyr i gymryd perchnogaeth o’u haddysg a datblygu ymdeimlad o ddiben.

Cyfeiriodd ymarferwyr AHY a chynrychiolwyr awdurdodau lleol at nifer o heriau. Roedd y rhain yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder ac ansicrwydd gan rai ymarferwyr ynghylch y cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau eraill, gyda diffyg canllawiau a phenodoldeb yn peri iddynt deimlo’n ansicr a ydynt yn bodloni disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru ac yn paratoi dysgwyr mewn ffordd effeithiol ar gyfer arholiadau.
- Roedd rhai arweinwyr UCD wedi adnabod amharodrwydd ymhlith eu staff i symud i ffwrdd o arbenigeddau pwnc a choleddu dulliau mwy trawsgwricwlaidd. Gan bod y gweithlu yn aml yn fach o fewn UCDau, amlygodd y cyfranogwyr hyn y gallai ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws pob maes o’r cwricwlwm orlethu’r staff.
- Roedd bron i hanner yr ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD yn barnu nad yw Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iawn i’w darpariaeth nhw. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys cael gwahanol flaenoriaethau dysgu nad ydynt yn rhai academaidd, a ffocws ar anghenion galwedigaethol a chyflogadwyedd. Roedd hyn yn ymwneud â dysgwyr sydd â chofrestriad deuol ac felly, yn mynychu ysgolion prif ffrwd hefyd. O’r herwydd, nid oedd yr ymarferwyr hyn yn teimlo bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at newidiadau i’w darpariaeth neu eu harfer nhw.
- Adroddodd dros hanner yr ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD nad ydynt yn cael fawr iawn o gyswllt gyda’u hawdurdod lleol ynghylch cynllunio a darparu cwricwlwm, felly bach iawn o arweiniad yr oeddent yn ei gael ynghylch deall a gwireddu agweddau mandadol o’r Fframwaith.
- O ganlyniad i amrywiaeth y gwahanol ddarpariaeth, adroddodd rhai ymarferwyr UCD a chynrychiolwyr awdurdodau lleol am heriau sylweddol wrth gynorthwyo dysgwyr cofrestriad deuol o wahanol ysgolion prif ffrwd mewn ffordd effeithiol. Nodont sut y mae gwahaniaethau rhwng cwricwla a dilyniant dysgu yn creu anawsterau wrth sicrhau aliniad cwricwlwm.
- Amlygwyd pryderon gan rai cynrychiolwyr awdurdodau lleol ei bod yn debygol y byddai gan ddysgwyr AHY cofrestriad sengl gwricwlwm mwy cul na’r rhai mewn ysgolion prif ffrwd. Amlygwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr sy’n agosáu at eu hastudiaethau TGAU o ganlyniad i gapasiti staffio neu’r angen tybiedig ymhlith ymarferwyr i ganolbwyntio ar bynciau penodol a chymwysterau.

## Manteision

3.5. Roedd hi'n farn gyffredin ymhlith ymarferwyr AHY bod hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu iddynt ymateb i anghenion dysgwyr ac addasu eu cwricwlwm mewn ffordd briodol. Barnwyd bod yr hyblygrwydd a roddir i gynllunio cwricwlwm pwrpasol o fewn y Fframwaith a ddiffiniwyd yn genedlaethol yn gweithio'n dda o ystyried nodweddion a chefndiroedd amrywiol y dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo gan ddarpariaeth AHY. Adroddodd darparwyr AHY eu bod yn datblygu profiadau dysgu pwrpasol wedi'u teilwra i ddiddordebau, dyheadau ac anghenion dysgwyr unigol.

> "Mae llawer mwy o hyblygrwydd. Mae'n ymwneud yn fawr ag anghenion y plant a'u galluoedd, a chynnig profiad iddynt y gallant ei ddatblygu wedyn." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)
>
> "[Mae'r dysgwyr] i gyd yn hollol wahanol. Mae'n anodd iawn dweud bod un ddarpariaeth yn addas i bawb. Rhaid i ni wirioneddol addasu a newid. Rydw i'n teimlo bod [Cwricwlwm i Gymru] yn cynnig rhyw fath o hyblygrwydd i ni wneud hynny." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.6. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr awdurdodau lleol at bwysigrwydd ymarferwyr AHY yn cael y cyfle i gynnig cwricwlwm pwrpasol sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr unigol trwy weithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd y cynrychiolwyr hyn yn barnu hefyd bod gan ymarferwyr fwy o ddealltwriaeth o botensial dysgu mwy personoledig, o ganlyniad i hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru.

> "Nid yw'n gwricwlwm sy'n seiliedig ar y cynnwys. Nid yw'n gwricwlwm sy'n seiliedig ar y canlyniadau fel yr arferai fod. Credaf ei fod yn gwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiben a chynnig y cyfle i bobl ddatblygu'r hyn sydd orau ar gyfer eu cyd-destunau nhw yn eu barn nhw." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

3.7. Adroddodd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd bod Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu galluogedd a pherchnogaeth ymarferwyr wrth ddatblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu eu cymunedau lleol nhw. Roeddent yn awgrymu bod hyn yn caniatáu mwy o ymatebolrwydd i bynciau a thestunau a digwyddiadau yn eu cymunedau, gan ddwyn mwy o ddilysrwydd a chyd-destun lleol i'r dysgu. Nododd un cyfranogydd a oedd yn cyflawni rôl ddeuol o fewn UCD a'r awdurdod lleol bod cael galluogedd i feithrin cysylltiadau gyda'r gymuned leol yn cynnig budd i ddysgwyr.

> “…[gyda] phethau fel galluogedd athrawon a pherchnogaeth o’r cwricwlwm, mae’n teimlo fel pe bai mwy o reolaeth – y gallu i ddatblygu cwricwlwm lleol sy’n adlewyrchu anghenion yr ardal leol ac yna, sy’n helpu plant a disgyblion i weld eu hardal leol...y syniad o ddwyn dilysrwydd i’r dysgu yn llawer mwy – ac unwaith eto...y galluogedd hwnnw i fod yn berchen ar a datblygu eu cwricwlwm lleol eu hunain.” (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

> “Mae’r bobl ifanc yn teimlo’n ynysig iawn, felly rydw i’n ceisio meithrin cysylltiadau gyda’n cymuned ysgol a gyda chymuned leol... mae rhai o’n pobl ifanc yn gweithio gyda phreswylwyr lleol ac yn datblygu’r profiadau cadarnhaol hynny o roi rhywbeth yn ôl. Os ydynt yn tyfu pethau [yn y gerddi a’r siediau polythen], gallwn roi’r hyn yr ydym yn ei dyfu. Ar yr un pryd [maent yn dysgu am] goginio ar gyllideb ... byddwn yn addysgu lletygarwch ac arlwyo iddynt ac efallai gan agor i fyny i’r freuddwyd o gael caffi cymunedol.” (Ymarferydd a chynrychiolydd awdurdod lleol, UCD)

3.8. Mynegwyd y farn yn gyson ymhlith ymarferwyr AHY bod yr hyblygrwydd hwn ar goll yn y cwricwlwm blaenorol, a ystyriwyd yn fwy cadarn a strwythuredig ac yn rhoi ‘gormod’ o bwyslais ar rifedd a llythrennedd. Amlygont bod Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu mwy o ryddid a chreadigrwydd, nid yn unig o ran dysgu ac addysgu, ond hefyd er mwyn bodloni anghenion ehangach eu dysgwyr ac ymgysylltu â gweithgareddau y gallent fod o fudd i’r gymuned leol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys mwy o ddysgu yn yr awyr agored er mwyn cynnig cyd-destun i’r wybodaeth am ddaearyddiaeth a hanes lleol; cynnig amrywiaeth ehangach o ddewisiadau pwnc i ddysgwyr sy’n cwblhau cymwysterau; a chynnig mwy o amser mewn lleoliadau gwaith i ddysgwyr er mwyn iddynt feithrin sgiliau ar gyfer y gweithle, megis cyfrif stoc ac ymarfer defnyddio peiriannau.

> “[Roedd y dysgwyr] yn ymgysylltu oherwydd ein bod yn ceisio creu gwir gwricwlwm diddorol ac ymarferol...Roeddem allan gryn dipyn...Mae wir yn ymdeimlad o ‘Gadewch i ni fynd i Aldi’s’, ‘Gadewch i ni fynd i’r lle coffa. Pam bod hwnnw yno?’ ...dyna’r hyn y mae’r cwricwlwm wedi rhoi’r rhyddid i ni ei wneud.” (Ymarferydd, UCD)

3.9. Nododd ymarferwyr bod natur hyblyg Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu ymarferwyr i greu amgylchedd dysgu mwy cefnogol a pherthnasol, yr adroddont ei fod o fudd i’w dysgwyr. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr wedi arsylwi mwy o ymgysylltu a chymhelliant ymhlith dysgwyr trwy’r broses hon. Roedd dull mwy holistaidd o ddysgu sy’n gwerthfawrogi lles a datblygiad personol wedi cyfrannu at ymddygiad gwael hefyd yn ôl rhai ymarferwyr.

> “Rydym yn gwneud gweithgareddau ‘gwrando ar ddysgwyr’ ac yn cael adborth gan y disgyblion yn y UCD ac maent yn bendant yn dweud, ‘Rydw i’n dymuno

dod i'r ysgol yn fwy nawr gan fy mod yn gwneud mwy o'r pethau yr wyf yn dymuno eu gwneud' ac [mae'n] fwy diddorol gan eu bod yn gysylltiedig â gweithgareddau yn y gymuned neu bethau sydd yn y newyddion." (Ymarferydd, Awdurdod Lleol)

"Byddwn wastad yn cychwyn gyda rheoli dicter ac iechyd meddwl – hwn yw ein strwythur craidd. Ac yna gall [dysgwyr] ddewis yr uned nesaf yr [hoffent ei dilyn] neu'r pedwar neu'r pump nesaf trwy gydol y flwyddyn academaidd gyfan...felly, byddwch yn gallu gweld pa mor bell y maent wedi dod o ran y math sylfaenol o sgiliau. Gallant weld pa gymwysterau ac unedau y maent wedi'u cyflawni gyda ni. Gallant hefyd weld eu hymddygiad, eu hagweddau, mae popeth arall wedi gwella." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

"Rydw i'n hoffi'r ffaith ei fod [Cwricwlwm i Gymru] yn llawer mwy rhydd ac yn fwy creadigol...Gallwn addysgu rhifedd a llythrennedd, ond hefyd trwy greadigrwydd a gwneud pethau yn fwy hwyliog nawr. Rydych chi'n cael llawer mwy o hyblygrwydd er mwyn bod yn addas i'ch dysgwyr." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.10. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cydnabod bod iechyd a lles (yn ogystal â chreu amgylchedd dysgu sy'n meithrin yn fwy eang) wastad wedi bod yn flaenoriaeth wrth gynorthwyo dysgwyr trwy AHY. Fodd bynnag, roedd yr hyblygrwydd tybiedig o fewn Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu newid i ffwrdd o ddull sy'n seiliedig ar y cynnwys, i fodel sy'n seiliedig ar ddiben ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ac roedd hyn yn caniatáu integreiddio iechyd a lles ym mhob agwedd ar y profiad dysgu. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i ymarferwyr greu amgylchedd ac ethos sy'n cynorthwyo lles dysgwyr unigol mewn cyd-destun trawsgwricwlaidd. Roedd rhai dulliau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys dysgu a gweithgareddau yn yr awyr agored, ymgysylltu cymunedol, therapi cerddoriaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar.

"Wrth gwrs, meithrin yw'r hyn a wnawn yn y lle cyntaf...Gan fynd yn ôl i'r pedwar diben – unigolion iach a hyderus – dyna'r hyn yr ydym yn gobeithio ei sicrhau ar gyfer ein myfyrwyr erbyn yr adeg pan fyddant yn ein gadael. Nid yw hyn yn rhywbeth newydd i ni." (Ymarferydd, UCD)

"Mae nifer o'n dysgwyr yn teimlo'n ofidus neu mae ganddynt anghenion iechyd. Os nad ydynt yn barod i ddysgu, rhaid i ni ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles yn gyntaf...mae'n bersonoledig iawn i bob dysgwr, ond mae hyn wir wrth wraidd ein cwricwlwm." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.11. Adroddodd y rhan fwyaf o ddarparwyr AHY eu bod yn teilwra eu cwricwla i fodloni anghenion a dyheadau dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys mabwysiadu dull mwy ymarferol er mwyn cynnig cyfleoedd; er enghraifft, defnyddio profiad gwaith a sesiynau gyda gweithwyr proffesiynol o wahanol yrfaoedd (gan roi sylw i thema

drawsgwricwlaidd profiadau sy’n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith). Nododd nifer bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau dysgwyr at ddysgu gan bod y dull personoledig yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar gynnydd a chyrhaeddiad, gan arwain at ymdeimlad o gyflawniad a mwy o hunan-barch.

> “Rydw i’n credu bod cryn dipyn o ffocws ar ddyheadau [dysgwyr] [yng Nghwricwlwm i Gymru]. Rydw i’n gwybod ein bod yn treulio cryn dipyn o amser yn trafod hynny ... mae wastad tipyn o geisio dwyn y profiadau newydd hyn a dealltwriaeth newydd i ddysgwyr o fewn AHY. Mae hyn wastad wedi bod yn allweddol yn fy marn i...gyda gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith, rydym yn gwneud cryn dipyn o waith gyda Gyrfa Cymru. Rydym yn cael sesiynau grŵp lle y byddwn yn cael gwahanol weithwyr proffesiynol yn dod i mewn a cheisio ysbrydoli ein dysgwyr.” (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

> “Ydy [mae’n gwella agweddau dysgwyr tuag at ddysgu] gan eu bod yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad oherwydd os byddwch yn ei osod ar eu lefel nhw, gallant ei gyflawni ac yna, byddant yn cyflawni rhywbeth. Ac ydy, heb os, mae’n cynyddu eu hunan-barch.” (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.12. Amlygodd tua hanner yr ymarferwyr AHY bod gweithredu Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at fwy o bwyslais ar wrando ar leisiau dysgwyr a’u cynnwys mewn gweithgarwch cynllunio cwricwlwm. Barnwyd bod y ffocws hwn ar alluoedd dysgwyr yn eu grymuso i gael perchnogaeth o’u haddysg a meithrin ymdeimlad o ddiben. Un enghraifft a roddwyd gan UCD oedd menter elusennol a sefydlwyd gan y dysgwyr er mwyn cynorthwyo’r rhai yn y gymuned leol a oedd yn ddigartref. Roedd y dysgwyr wedi cyflawni rôl weithredol wrth drefnu a rhedeg y digwyddiad, a oedd yn cynorthwyo syniadau ynghylch menter a dinasyddiaeth.

> “Byddwn yn cynnal sesiynau llais y disgybl, byddwn yn siarad fel tîm, mae gennym [agwedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar y] cwricwlwm ac mae hynny hefyd yn caniatáu i’r disgyblion arwain rhywfaint o’u dysgu. Credaf bod yr elfennau hynny wedi bod yn bwysig iawn i ni...arweiniodd at fyfyrwyr yn dymuno gweithio gydag elusen leol. Gweithiom gyda [sefydliad digartrefedd] lle y bu’n rhaid i’r myfyrwyr drefnu, sefydlu, hysbysebu a rhedeg [stondin/digwyddiad] ‘rhowch yr hyn y medrwch, cymerwch yr hyn y mae ei angen arnoch’...Ysgogwyd hyn yn rhannol gan y cymhwyster, ond hefyd sut yr oedd y myfyrwyr yn dymuno ei ddehongli a’i ganlyn.” (Ymarferydd, UCD)

## Heriau

3.13. Roedd diffyg tybiedig canllawiau a phenodoldeb o gwmpas y cymwysterau TGAU newydd a’r cymwysterau TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd) sydd ar fin dod allan, yn creu heriau i rai ymarferwyr. O ran arholiadau, roedd symud i

ffwrdd o'r hyn a ystyriwyd yn gwricwlwm mwy rhagnodol yn ei gwneud yn anodd i'r ymarferwyr hyn wybod yr hyn i'w addysgu, ac a oedd eu hadnoddau a'u ffocws presennol yn briodol. Roeddent yn teimlo bod y diffyg canllawiau a phenodoldeb hwn wedi ei gwneud yn anos sicrhau eu bod yn bodloni disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru ac yn paratoi dysgwyr mewn ffordd effeithiol ar gyfer eu camau nesaf, gan gynnwys arholiadau. Roedd rhai ymarferwyr yn dymuno cael mwy o eglurder am y ffordd y byddai'r cymwysterau TGAU a TAAU newydd yn edrych, gan nad oedd y manylebau wedi cael eu cyhoeddi eto ar gyfer nifer o bynciau pan gynhaliwyd y gwaith maes hwn.[8]

> "…gan bod gan ysgolion ymreolaeth dros eu cwricwlwm eu hunain, sut allwn ni sicrhau bod cwricwla yn gyffelyb? Os ydym yn ystyried cymwysterau ffurfiol, a ydym oll yn mynd i fod yn addysgu'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn iddynt sicrhau'r cymhwyster hwnnw? Nid ydym yn gwybod eto. Gan na chaiff y TGAU newydd ei addysgu tan y flwyddyn nesaf." (Ymarferydd, UCD)

> "Pan fydd yn cyrraedd Cyfnod allweddol 4, rydym yn ei chael hi'n anodd iawn gallu gwneud cwricwlwm newydd a hen gymwysterau a dwyn cymwysterau newydd i mewn nawr. Mae'r cydbwysedd o ran amser staff a staff yn gallu gwneud hynny yn anodd iawn, ac nid ydw i, nid ydym ni wedi meistroli sut i wneud hynny eto ...Byddai rhai dogfennau cynllunio allweddol, er enghraifft mewn TGAU iaith Saesneg dros Gyfnod allweddol 4 a sut y mae hyn yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, yn wych." (Ymarferydd, UCD)

3.14. Amlygodd rhai ymarferwyr bod gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn gofyn am 'newid meddylfryd' o ran y ffordd y maent yn meddwl am addysgu a dysgu. O ganlyniad i natur mwy holistaidd ac integredig Cwricwlwm i Gymru, roedd rhai ymarferwyr, a oedd wedi hyfforddi a chael eu cyflogi fel arbenigwyr pwnc (er enghraifft, athrawon Saesneg), yn barnu bod disgwyl iddynt goleddu dull mwy trawsgwricwlaidd. Adroddodd rhai arweinwyr UCD am amharodrwydd ymhlith eu staff i fynychu hyfforddiant ar gyfer meysydd cwricwlwm y tu hwnt i'w harbenigedd pwnc yn ystod y camau gweithredu cynnar. Adroddodd dau arweinydd UCD sy'n gweithio yn y sector uwchradd y gallai ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws pob maes o'r cwricwlwm orlethu'r staff, gan nodi bod gan UCDau lai o staff yn aml i rannu cyfrifoldebau, o'u cymharu ag ysgolion prif ffrwd.

---

[8] Sylwer y cynhaliwyd y trafodaethau rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2024, a bydd gofyn cyflwyno ton gyntaf TGAU Gwneud-i-Gymru o fis Medi 2025. Darparwyd manylebau pwnc trwy wefan CBAC ym mis Medi 2024, yn fuan ar ôl cwblhau'r trafodaethau, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddysgu 14 i 16 ym mis Medi 2024.

> "Ar y dechrau, roeddent [yr athrawon] yn teimlo'n gyffyrddus i ymuno â rhwydweithiau MDaPh [Maes] eu pwnc nhw yn unig...mae'n ymwneud â'u hatgoffa yn gyson, rydym oll yn athrawon iechyd, lles, sgiliau trawsgwricwlaidd. Fel athrawon uwchradd, mae gennym enw drwg am ddweud 'nid fy mhwnc i yw hwnnw'...mae rhai staff wir yn coleddu'r dull newydd hwn. I staff eraill, maent ychydig yn fwy amharod i roi'r gorau i'w pwnc." (Ymarferydd, UCD)

> "Yn fy marn i, y mater mwyaf yw gweithio mewn tîm bach. Mae'r cyfrifoldebau yn mynd yn enfawr...nid oes gwahaniaeth gennym ryddhau staff i fynd i wneud [hyfforddiant], ond mae eu pennau yn ffrwydro gyda'r holl wybodaeth. Mae angen iddynt arwain ar hyn a hyn a hyn. Maent yn dweud "waw"...rydw i'n credu mai un o'r rhwystrau yw gorlwytho." (Ymarferydd, UCD)

3.15. Roedd bron i hanner yr ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD yn barnu nad yw Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iawn i'w darpariaeth nhw am resymau amrywiol. Soniodd tri eu bod yn canolbwyntio mwy ar eu harbenigedd eu hunain ac mai anghenion sgiliau cyflogadwyedd a galwedigaethol eu dysgwyr oedd yn cael blaenoriaeth ganddynt. Soniodd un arall nad yw Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iawn iddynt gan eu bod yn canolbwyntio ar ymddygiad a lles dysgwyr, yn hytrach na sgiliau academaidd. Roedd y sylwadau hyn yn cyfeirio at ddysgwyr AHY sydd â chofrestriad deuol gydag ysgol prif ffrwd yn unig, ac yr oeddent yn debygol o fod yn mynychu gwersi sy'n canolbwyntio ar Feysydd eraill yno. Adroddodd ymarferydd AHY heb fod mewn UCD arall nad oedd wedi sylwi ar unrhyw newid o ran yr hyn a gynigir gan yr awdurdod lleol ers y cyflwynwyd Cwricwlwm i Gymru gan eu bod "wastad wedi bod yn darparu dysgu ymarferol yn hytrach nag unrhyw beth arall" (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD).

3.16. Adroddodd chwech ymarferydd sy'n gweithio i ddarparwyr AHY heb fod mewn UCD, gan gynrychioli dros hanner y sampl AHY heb fod mewn UCD, nad ydynt yn cael unrhyw gyswllt neu fawr iawn o gyswllt gydag awdurdodau lleol o ran cynllunio a darparu cwricwlwm. Roedd y chwech wedi'u lleoli mewn gwahanol awdurdodau lleol ar draws Cymru. Trafodir cyfleoedd a heriau ynghylch cydweithio rhwng darparwyr AHY ac awdurdodau lleol ymhellach yn adrannau 3.45-3.49.

> "Nid ydym wedi cael unrhyw fath o help gan awdurdodau lleol." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.17. Adroddodd un ymarferydd AHY heb fod mewn UCD, gan nad oes fawr iawn o gyswllt gyda'r awdurdod lleol o ran cynllunio a darparu cwricwlwm, bod eu gwybodaeth o Gwricwlwm i Gymru yn dod o'u profiadau o ddarparu cymwysterau

Agored Cymru.[9] Roedd rhai o'r cymwysterau yr oeddent yn cyfeirio atynt yn cynnwys addysg bersonol a chymdeithasol, addysg a phrofiadau byd gwaith, sgiliau byw'n annibynnol, a sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd a gwaith. Roeddent yn barnu bod y dull holistaidd hwn "yn cyd-fynd â'r cwricwlwm Cymreig*"* (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD). Adroddodd dau ymarferydd arall AHY heb fod mewn UCD eu bod yn defnyddio cymwysterau Agored Cymru fel rhan o'u gwaith cynllunio cwricwlwm, ond roedd hi'n aneglur a oedd hyn yn cael ei gymell gan y cam o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

3.18. Amlygodd rhai ymarferwyr sy'n gweithio mewn UCDau a chynrychiolwyr awdurdodau lleol y ffaith bod trefniadau cofrestriad deuol yn her sylweddol wrth sicrhau aliniad y cwricwlwm, gan bod dysgwyr AHY mewn UCD yn mynychu gwahanol ysgolion prif ffrwd, ac y gallai fod gan bob un o'r rhain gwricwlwm gwahanol a gwahanol ddilyniant o ran dysgu: "Rhaid i [ddysgwyr] adrannu'r cwricwlwm pan fyddan nhw gyda ni, i'w cwricwlwm [yn yr] ysgol. Mae gennym 59 o ysgolion sy'n gallu atgyfeirio disgyblion atom. Mae'n amhosibl i ni ddilyn 59 cwricwlwm gwahanol" (Ymarferydd, UCD). Er mwyn rheoli hyn, roedd un ymarferydd o'r farn ei bod yn bwysig datblygu dealltwriaeth gytunedig ar gyfer dysgwyr cofrestriad deuol rhwng eu hysgol prif ffrwd a'r darparwr AHY er mwyn cynorthwyo cynnydd ac ailintegreiddio posibl.

> "Daw'r cymhlethdodau pan fyddant [dysgwyr] yn cofrestru gyda mwy nag un [darpariaeth addysgol]. Maent yn treulio rhan o'r wythnos gyda ni, rhan o'r wythnos yn y brif ffrwd. Felly, mae'n ymwneud ag alinio'r cwricwlwm, ond maent yn dod o ysgolion prif ffrwd sydd â'u syniadau eu hunain am yr hyn yw cwricwla unigol." (Ymarferydd, UCD)

3.19. Nododd dau o'r cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod y dysgwyr AHY cofrestriad sengl yn debygol o gael cwricwlwm mwy cul na'r hyn a geir mewn ysgol prif ffrwd, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 neu 11, o ganlyniad i gapasiti staffio neu'r angen tybiedig i ganolbwyntio ar bynciau craidd a chymwysterau.

> "Mae eu cwricwlwm mor fach ac efallai mai dim ond tri neu bedwar TGAU â ffocws y byddant yn ei wneud [felly] mewn gwirionedd, mae ehangder y cwricwlwm yn cael ei golli weithiau wedyn." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

[9] Mae Agored Cymru yn gorff dyfarnu ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant ar draws Cymru. Caiff y cymwysterau eu cynllunio i ddiwallu anghenion sgiliau yng Nghymru a chynorthwyo cyflogadwyedd a chynnydd dysgwyr.

## Thema 2: Asesu a chynnydd

3.20. Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar brofiadau a heriau a adroddwyd gan ymarferwyr AHY a chynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch arferion asesu a monitro cynnydd dysgwyr.

**Thema 2: Asesu a chynnydd**

Roedd hi'n farn gyffredin bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi newid cadarnhaol tuag at dderbyn dulliau mwy holistaidd ac ansoddol ar gyfer asesu o fewn darpariaeth AHY. Cyfeiriodd rhai darparwyr at enghreifftiau o newidiadau i arferion asesu, a oedd yn cynnwys:

- canolbwyntio ar asesu cynnydd unigol yn hytrach na chyrhaeddiad yn erbyn targedau gosodedig
- mesur amrediad o ganlyniadau nad ydynt yn rhaid academaidd, fel lles, hyder ac ymddygiad er mwyn cael dealltwriaeth holistaidd o gynnydd dysgwyr

Soniodd rhai ymarferwyr AHY am gynnwys eu dysgwyr mewn gweithgarwch gosod targedau a hunanasesu. Adroddwyd bod hyn wedi helpu dysgwyr i feithrin hyder ac annibyniaeth.

Adroddodd rhai darparwyr AHY eu bod yn dathlu data ynghylch cynnydd mewn meysydd y bydd ysgolion prif ffrwd yn eu hanwybyddu efallai (er enghraifft, presenoldeb, ymddygiad, agweddau at ddysgu). Adroddwyd bod hyn wedi helpu i newid persbectifau dysgwyr ynghylch yr hyn y gall llwyddiant ei olygu.

Nododd dros hanner yr ymarferwyr AHY bod lles a datblygiad personol yr un mor bwysig â chynnydd academaidd. Arweiniodd hyn at roi'r Maes Iechyd a Lles wrth galon eu darpariaeth AHY, gydag asesiadau yn eu lle i fonitro datblygiad dysgwyr.

Ers gweithredu Cwricwlwm i Gymru a gwaredu targedau cyrhaeddiad, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr mewn darpariaeth AHY wedi wynebu heriau wrth wybod sut a phryd i gynnal asesiadau. Adroddwyd bod hyn – ynghyd â defnyddio gwahanol strategaethau adrodd, disgwyliadau amrywiol ynghylch pa fetrigau sy'n dynodi cynnydd, a dulliau anghyson o rannu data rhwng darparwyr addysg – wedi ei gwneud hi'n anodd alinio a chymharu cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio.

Adroddodd tua hanner yr ymarferwyr bod ymyriadau tymor byr ar gyfer dysgwyr o fewn darpariaeth AHY yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiadau ystyrlon a deall cynnydd mewn perthynas ag elfennau o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sef camau cynnydd. Nododd ymarferwyr mewn darpariaeth AHY eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o gynnydd

dysgwyr mewn meysydd nad ydynt yn rhai academaidd (e.e. lles, ymddygiad), ond roeddent yn ei chael hi'n heriol mesur neu feintioli'r cyfraniad yr oeddent yn ei wneud tuag at gynnydd dysgwyr o ran gwybodaeth a sgiliau.

## Arferion asesu sy'n newid

3.21. Adroddodd bron yr holl ymarferwyr eu bod yn canolbwyntio ar gynnydd unigol dysgwyr, yn hytrach na thargedau cyrhaeddiad penodedig. Roedd y rhan fwyaf yn barnu bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn cynorthwyo newid cadarnhaol tuag at dderbyn dulliau mwy holistaidd ac ansoddol wrth asesu o fewn darpariaeth AHY. Roedd rhai ymarferwyr wedi myfyrio am ddulliau newydd a gyflwynwyd ganddynt i gofnodi cynnydd ers cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhain yn ceisio cynnal elfen o unigoleiddio trwy gael amcan o ddiddordebau dysgwyr a gweithredu yn eu cylch, ac roedd yr enghreifftiau yn cynnwys:

- treialu dyddiadur dysgwr, a oedd yn cofnodi'r diddordebau hyn, ynghyd â manylion allweddol o Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU)[10] (pan fo hynny'n berthnasol), a thargedau unigol
- annog dysgwyr i fynychu 'therapi Lego' er mwyn casglu data ynghylch sut y maent yn chwarae ac yn ymgysylltu â thasgau
- ychwanegu at waith TGAU gydag offerynnau dysgu a gynlluniwyd i alluogi dysgwyr i weld sut y maent yn meithrin sgiliau sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben a sut y gellir cynllunio gweithgareddau i lenwi unrhyw fylchau

3.22. Soniodd rhai ymarferwyr AHY am gynnwys eu dysgwyr mewn gweithgarwch gosod targedau a hunanasesu. Y rhesymeg y seiliwyd y broses hon arni oedd caniatáu i ddysgwyr *"ddeall mai dyma'r fan y mae'n rhaid i mi ei gyrraedd, dyma'r fan y gallwn ei gyrraedd, a dyma'r hyn y mae angen i mi ei wneud"* (Ymarferydd, UCD). Adroddwyd bod hyn wedi helpu dysgwyr i feithrin hyder ac annibyniaeth.

3.23. Adroddodd rhai darparwyr AHY eu bod yn dathlu cynnydd mewn meysydd y gallai ysgolion prif ffrwd eu hanwybyddu (er enghraifft, presenoldeb, ymddygiad, agweddau at ddysgu), a oedd wedi helpu i newid persbectifau dysgwyr am yr hyn y gellir ei ystyried fel llwyddiant. Nododd un ymarferydd nad oes nifer o'u dysgwyr yn

[10] Mae CDU yn rhan o brosesau'r system ADY. Am ragor o wybodaeth, gweler: [Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin.]

credu y gallant sicrhau TGAU pan fyddant yn cyrraedd yn y lle cyntaf, ond erbyn diwedd y flwyddyn, “mae ganddynt 7, 8 neu 9 dystysgrif gwahanol yn eu dwylo ac nid ydynt yn gallu credu faint o waith y maent wedi’i wneud mewn gwirionedd” (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD). Bu ymarferwyr AHY yn myfyrio am y ffordd y gall dathlu’r daith helpu dysgwyr i ddeall disgwyliadau yn well, a meithrin hyder.

> “Dros ychydig wersi, [rydym yn datblygu] tabl asesu ar gyfer dysgu [ar gyfer] beth bynnag yr ydym yn gweithio arno. Ac mae’r myfyrwyr yn glir am yr amcanion, y nodau a’r targedau. Mae gennym dabl lle y gallwch gael y myfyrwyr i amlygu datganiad y maent yn teimlo eu bod wedi ei ystyried, a lle i wneud sylwadau neu rywbeth gwirioneddol unigoledig i’r wers honno y maent yn credu eu bod wedi ei gyflawni.” (Ymarferydd, UCD)

3.24. Soniodd dros hanner yr ymarferwyr AHY bod lles a datblygiad personol yr un mor bwysig â chynnydd academaidd. Mae hyn wedi arwain at Faes Iechyd a Lles yn cael ei roi wrth galon eu darpariaeth AHY, gydag asesiadau yn eu lle i fonitro’r datblygiad hwn. Roedd rhai o’r asesiadau lles y cyfeiriwyd atynt yn dod o’r rhaglen Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)[11] a graddfa ‘cysylltiedig â natur’.[12] Adroddodd rhai ymarferwyr AHY eu bod yn ei chael hi’n anodd mesur cynnydd ym meysydd lles ac ymgysylltu â dysgu, ac roedd ychydig dan hanner yr ymarferwyr AHY wedi gweld amrywiad rhwng darpariaethau o ran yr hyn sy’n cyfateb â ‘chynnydd’. Esboniont eu bod, fel darparwyr AHY, yn gwerthfawrogi ac yn gweithio ar wella lles, hyder, presenoldeb, ymddygiad, agweddau at ddysgu, a goresgyn rhwystrau ar gyfer eu dysgwyr. Fodd bynnag, tybiwyd bod rhieni, ysgolion prif ffrwd, a darparwyr addysg bellach/hyfforddiant yn aml yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau academaidd traddodiadol a chymwysterau ffurfiol yn bennaf. Awgrymodd un cynrychiolydd ALI bod yr her hon yn bodoli cyn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, ond roedd hi’n aneglur a oedd y mwyafrif yn rhannu’r farn hon.

> “Rydym yn mesur llwyddiant mewn ffordd wahanol iawn i ysgol prif ffrwd. Efallai y byddai ein hysgolion prif ffrwd yn chwerthin ar yr hyn yr ydym yn eu hystyried yn gyflawniadau, ond i ni, mae’n enfawr. Efallai y byddwn yn cael plant sy’n dod atom ac mae eu presenoldeb yn 3%. Ac os byddant yn gadael gyda phresenoldeb o 20%, mae hynny’n wych.” (Ymarferydd, UCD)

[11] Mae ELSA yn ddull er mwyn helpu ysgolion i gynorthwyo anghenion a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, gan geisio goresgyn rhwystrau dysgu a lles trwy feithrin sgiliau gwydnwch emosiynol, hunanymwybyddiaeth a sgiliau cymdeithasol.

[12] The connectedness to nature scale: A measure of individuals’ feeling in community with nature. Gan Mayer a Frantz 2004.

3.25. Roedd hi'n farn gyffredin bod y cwricwlwm blaenorol yn rhoi mwy o bwyslais ar gynnal asesiadau er mwyn asesu cynnydd tuag at dargedau cyrhaeddiad, ond nad oedd y rhain wastad yn briodol i ddysgwyr AHY. Er enghraifft, nododd sawl ymarferydd AHY nad oedd rhai o'u dysgwyr yn gallu eistedd a chanolbwyntio am gyfnodau hir, eu bod wedi cael profiadau negyddol o addysg/asesu yn y gorffennol, bod bylchau yn eu dysgu megis sgiliau darllen ac ysgrifennu cyfyngedig o ganlyniad i absenoldeb, a bod ganddynt hunan-barch a hyder isel gan eu bod wedi cael eu "taro'n ôl gymaint" (Ymarferydd, UCD). Nodwyd hefyd bod rhai dysgwyr yn cael eu hatgyfeirio at ddarpariaeth AHY am gyfnod byr yn unig. Roedd hi'n farn gyffredin bod asesu dan Gwricwlwm i Gymru yn ddull mwy hyblyg ac yn peri llai o straen i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu amrywiol.

> "Mae Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio'r rhan honno, sef y cwricwlwm, ac ystyried yr asesu sy'n cyd-fynd ag ef. Credaf ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond yn bwysicaf fyth, mae'n cynnig cyfle i UCDau a [darparwyr] AHY wneud rhywbeth nad oedd yno efallai 5-10 mlynedd yn ôl gan ei fod yn gynnig cwricwlwm eithaf cyfyngedig." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

## Heriau wrth fesur cynnydd

3.26. Er na ystyriwyd bod asesu yn erbyn targedau cyrhaeddiad wastad yn rhywbeth priodol i ddysgwyr AHY, roedd peidio asesu fel hyn yn codi dau brif bryder: (i) cyfathrebu rhwng darparwyr a (ii) atebolrwydd mewn arolygiadau. Amlinellir y rhain yn fanylach isod.

### Cyfathrebu rhwng darparwyr

3.27. Roedd hi'n farn gyffredin ymhlith ymarferwyr bod gwaredu targedau cyrhaeddiad yn cyflwyno heriau a oedd yn ymwneud â sut a phryd i gynnal asesiadau. Adroddwyd bod hyn – ynghyd â defnyddio gwahanol strategaethau adrodd, yn amrywio'r disgwyliadau o ran pa fetrigau sy'n dynodi cynnydd, a dulliau anghyson o rannu data rhwng darparwyr addysg – wedi ei gwneud hi'n anodd alinio a chymharu cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio.

> "Rydw i'n credu bod athrawon yn eithaf nerfus ynghylch sut y maent yn asesu ac a ydynt yn ei wneud yn iawn. Ac efallai pe bai mwy o feibl asesu, byddem yn gwybod ein bod yn ei wneud yn gywir." (Ymarferydd, UCD)

> "Mae'r sefyllfa lle y mae pawb yn gwneud eu hasesiadau eu hunain yn un ddryslyd iawn ... credaf y dylem gydweithio ag ysgolion a'r awdurdod lleol, gan

> weithio ar offeryn asesu y gallwn ei ddefnyddio gyda'n gilydd er mwyn cofnodi." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

> "O ran ysgolion prif ffrwd, byddai'n dda pe bai system gyffredin, lle y gallem asesu [dysgwr], gallen nhw asesu [dysgwr] ar yr un pryd, ac (yna) rhannu'r data hwnnw. Nid ydym yno eto, felly rydym yn adrodd yn ôl yn wythnosol am bethau fel presenoldeb ac ymgysylltu, sy'n enfawr ar gyfer ein pobl ifanc a'u lles...Mewn enghreifftiau da, byddwn yn cael hynny yn ôl gan ysgolion prif ffrwd. Mae'n eithaf prin. A cheir diffyg cysondeb am y disgwyliadau ar gyfer hynny." (Ymarferydd, UCD)

3.28. Er bod bron i hanner yr ymarferwyr AHY wedi adrodd eu bod yn defnyddio asesiadau gwaelodlin i ddeall gwybodaeth flaenorol dysgwyr a'u hanghenion dysgu wrth gyrraedd[13], er hyn, amlygodd rhai anawsterau wrth ganfod hyn. Roedd hyn yn ymwneud â dysgwyr yn cyrraedd o wahanol ysgolion prif ffrwd gyda gwahanol ddulliau er mwyn gwireddu Cwricwlwm i Gymru a rhannu data. Nododd un ymarferydd a oedd yn gweithio mewn UCD bod y wybodaeth yr oeddent yn ei chael yn aml yn canolbwyntio ar y rhesymau dros atgyfeirio (er enghraifft, problemau ymddygiad neu bresenoldeb) yn hytrach na chynnydd academaidd neu ddysgu blaenorol yr oedd y dysgwr wedi ei gyflawni.

3.29. O ganlyniad i'r ffaith bod dysgwyr yn aml yn mynychu darpariaeth AHY am gyfnodau byr yn unig, soniodd tua hanner yr ymarferwyr eu bod yn cynnig ymyriadau tymor byr neu ddarpariaeth arhosiad byr, gan amrywio o ychydig wythnosau i rai misoedd. Amlygont bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiadau ystyrlon sy'n ymwneud â chamau cynnydd, a oedd yn golygu nad oedd y cynnydd yr oedd dysgwyr yn ei wneud mewn meysydd eraill (er enghraifft, lles ac ymddygiad), yn hawdd i'w weld neu ei fesur trwy lens Cwricwlwm i Gymru.

> "Mae'n anos nawr oherwydd y camau cynnydd ... [Mae'n] anodd nodi pa gynnydd yn y [Meysydd] neu'r sgiliau trawsgwricwlaidd sydd wedi cael ei wneud mewn gwirionedd." (Ymarferydd, UCD)

> "[Mae'n aml yn] garfan fyrhoedlog iawn, gan eu bod wedi dod o ysgolion gwahanol iawn. Maent wedi cael sylfeini dysgu gwahanol iawn nad ydym ni wedi bod yn rhan ohonynt, neu nad ydym yn siŵr amdanynt ac efallai y byddant yn aros gyda ni am gyfnod byr yn unig. ... Nid ydym yn tywys set o ddysgwyr ar daith." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

[13] Mae'n ofyniad bod pob ysgol a UCD yn cynnal asesiadau "wrth gyrraedd" o'r holl ddysgwyr. Trwy ddeall y gwaith a'r cynnydd a sicrhawyd gan ddysgwyr hyd yn hyn, diben yr asesiadau hyn yw cynorthwyo pontio a theilwra addysgu yn unol ag anghenion unigol y dysgwr. Gweler [Cefnogi'r broses o drosglwyddo o'r trefniadau presennol i Gwricwlwm i Gymru] am wybodaeth bellach.

### Atebolrwydd mewn arolygiadau

3.30. Mynegwyd pryderon gan ddau ymarferydd UCD a dau gynrychiolydd awdurdod lleol am ddangos tystiolaeth o gynnydd at ddibenion arolygiadau, o ganlyniad i ddiffyg safonau atebolrwydd clir neu gytunedig. Nododd ymarferydd UCD “mae pobl yn hoffi data, maent yn hoffi gweld graffiau a siartiau cylch sgleiniog”, ond roeddent yn teimlo na ellir delweddu cynnydd yn y fath ffordd weithiau, megis wrth fesur lles neu newidiadau mewn ymddygiad.

> “Rydym yn adnabod ein plant; rydym yn gwybod ble y mae angen iddynt fod yn mynd. Ond mae’n ymwneud â’r peth ofnadwy hynny pan fydd arolygydd yn dod i mewn [ac] a ydych chi’n gallu ei brofi? Byddai’n ddiddorol iawn ystyried yr hyn y mae [Estyn] yn ei ddymuno o ran asesu... Pa feini prawf y mae Estyn yn chwilio amdanynt? O ble y maent yn cael y meini prawf hynny? Ac [a yw ysgolion] yn dangos tystiolaeth ohono trwy luniau a phethau fel hynny yn unig?” (Ymarferydd, UCD)

## Thema 3: Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

3.31. Mae'r thema hon yn amlygu pwysigrwydd cydweithio ac ymgysylltu rhwng gwahanol randdeiliaid sy'n ymwneud â gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth AHY, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, dysgwyr ac ymarferwyr.

**Thema 3: Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth**

Adroddodd rhan fwyaf yr ymarferwyr sy'n gweithio mewn darpariaeth AHY am ymgysylltu â dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr er mwyn cynorthwyo i weithredu Cwricwlwm i Gymru. Defnyddiwyd amrywiaeth o wahanol ddulliau, gan gynnwys sesiynau llais y dysgwr, dadleuon, ac adborth trwy gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP).

Credwyd yn eang bod cynnwys llais y dysgwr a rhieni/gofalwyr yn helpu i sicrhau bod y cwricwlwm yn fwy perthnasol i ddysgwyr, gan ganiatáu iddo fod yn fwy ymatebol i'w hanghenion a'u diddordebau, a chynyddu eu gweithgarwch ymgysylltu gyda dysgu.

Cyfeiriodd yr holl ymarferwyr AHY at y ffaith eu bod yn gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill, gydag enghreifftiau fel:

- asiantaethau proffesiynol yn cynorthwyo dull holistaidd o ddiwallu anghenion dysgwyr (er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gwasanaethau cymdeithasol)
- busnesau'n cynorthwyo sgiliau cyflogadwyedd ac ymwybyddiaeth o yrfaoedd
- gweithio gydag amrediad o randdeiliaid i gynorthwyo datblygiad CDU ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY, gan gynnwys y dysgwr, eu rhieni/gofalwyr, eu hysgol, seicolegwyr addysg, ymarferwyr iechyd a'r awdurdod lleol

Nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr hefyd bod cydweithio yn allweddol er mwyn cynorthwyo wrth bontio dysgwyr i ddarpariaeth arall, gan sicrhau hefyd bod eu hanghenion yn parhau i gael eu diwallu. Amlygodd dros hanner yr ymarferwyr AHY y ffaith bod cydweithio gyda sefydliadau fel Gyrfa Cymru a busnesau lleol wedi helpu i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnig profiad gwaith ac arweiniad ynghylch gyrfaoedd i'w dysgwyr. Nodwyd y cydweithio hwn gan ymarferwyr fel rhywbeth sy'n hyrwyddo llwybrau ystyrlon i ddysgwyr yr oeddent wedi ymddieithrio wrth ddarpariaeth academaidd fwy traddodiadol yn flaenorol.

Adroddodd pob UCD eu bod yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd gan bod dysgwyr yn pontio rhwng darpariaeth. Mewn rhai achosion, roedd y cydberthnasoedd rhwng UCDau ac ysgolion prif ffrwd yn cael eu hwyluso gan bersonél cyswllt dynodedig, trafodaethau agored

a chyfarfodydd rheolaidd, er mwyn rhannu gwybodaeth am gynnydd, anghenion a phrofiadau dysgwyr.

Nododd rhai darparwyr AHY heb fod mewn UCD eu bod yn cynnal cyfathrebu rheolaidd gydag ysgolion prif ffrwd trwy gyfrwng negeseuon e-bost a chyfarfodydd. Fodd bynnag, adroddodd dros hanner y darparwyr AHY heb fod mewn UCD nad ydynt yn cael fawr iawn o gyswllt rheolaidd gydag ysgolion, neu ddim cyswllt o gwbl gyda nhw, a oedd yn her mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a chynllunio cynnydd dysgwyr. Yn ogystal, adroddodd dros hanner yr ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD am gyfathrebu cyfyngedig neu ddim cyfathrebu o gwbl gydag awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, adroddwyd bod hyn wedi creu her i ddarparwyr wrth ddeall a gweithredu Cwricwlwm i Gymru.

Nododd yr holl gynrychiolwyr awdurdodau lleol bod anghenion dysgwyr yn allweddol er mwyn pennu'r math o ddarpariaeth AHY sy'n cael ei neilltuo, ynghyd â ffactorau fel iechyd meddwl, iechyd corfforol, cynnydd academaidd, ac ymgysylltu ag addysg prif ffrwd. Weithiau, defnyddiwyd prosesau fel Paneli Mynediad Teg i wneud penderfyniadau ynghylch lleoliadau AHY.

Adroddodd bron pob UCD a rhai ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD eu bod yn manteisio ar ddysgu proffesiynol, fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio o ran faint o ddysgu proffesiynol yr oeddent wedi ymgysylltu ag ef a pha mor ddiweddar yr oedd hyn wedi digwydd. Roedd yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys rhannu arbenigedd fewnol a mynychu cyfleoedd hyfforddiant rhanbarthol.

Roedd rhai yn wynebu heriau wrth fanteisio ar ddysgu proffesiynol allanol o ganlyniad i'r effaith ar ddarpariaeth staff yn cael eu rhyddhau. Roedd rhai ymarferwyr yn teimlo y byddai modd gwneud mwy i deilwra'r cynnwys er mwyn rhoi sylw i wahanol heriau a dynameg darpariaeth AHY ac anghenion amrywiol eu dysgwyr.

### Ymgysylltu â dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr

3.32. Adroddodd rhan fwyaf yr ymarferwyr AHY eu bod yn defnyddio un strategaeth neu fwy i ymgysylltu â dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr er mwyn cynorthwyo wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhain yn galluogi llais y dysgwr i gael ei gynnwys yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm er mwyn meithrin mwy o berchnogaeth ac ymgysylltu ymhlith dysgwyr.

3.33. I rai ymarferwyr AHY, ystyriwyd bod dulliau o’r fath yn bwysig, o ystyried ei bod yn debygol bod eu dysgwyr wedi wynebu mwy o heriau wrth ymgysylltu â dysgu o’u cymharu â dysgwyr nad oeddent yn cael AHY. At hynny, credwyd yn eang bod cynnwys llais y dysgwr a llais rhieni/gofalwyr yn gwneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol i ddysgwyr, gan ganiatáu i ddarpariaeth fod yn fwy ymatebol i’w hanghenion a’u diddordebau, ac felly, yn fwy diddorol.

> “Rydym yn defnyddio llais y disgybl er mwyn ceisio darganfod yr hyn y mae gan ddysgwyr ddiddordeb ynddo ac annog eu dyheadau... rydym yn ceisio cynnwys y dysgwyr gymaint ag y gallwn yn eu dysgu.” (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

> “Maent yn ymwneud â’u cwricwlwm eu hunain gan bod ganddynt gwricwlwm mor bersonoledig, ac ni fyddai modd i ni wneud hyn heb eu llais nhw... maent yn ymrwymo llawer mwy iddo, os yw’n rhywbeth y mae ganddyn nhw ddiddordeb personol ynddo.” (Ymarferydd, UCD)

3.34. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwerthfawrogi dirnadaeth rhieni/gofalwyr o’r hyn sy’n cymell ac sy’n ennyn diddordeb eu plant, yn ogystal â’r hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio’n dda neu heb fod yn gweithio’n dda. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio sianelau fel apiau negeseua, sgyrsiau anffurfiol, holiaduron, a chyfarfodydd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP). I’r ymarferwyr hyn, roedd yr ymgysylltu hwn yn helpu i gynorthwyo wrth greu cwricwlwm sy’n bodloni anghenion cymdeithasol, emosiynol a/neu ymddygiadol unigol dysgwyr. Nid oedd hi’n glir i ba raddau yr oedd hyn yn cynrychioli newid yn ymarferol a oedd wedi cael ei gymell gan gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

3.35. Ar lefel fwy ffurfiol, nododd ymarferwyr mewn UCDau bod rhieni/gofalwyr yn ymwneud â chyfarfodydd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP), pwyllgor rheoli y UCD a chyfarfodydd gyda nifer o randdeiliaid, megis y gwasanaethau cymdeithasol, i drafod y ffordd orau o gynorthwyo eu plant. Soniodd nifer o ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD am y ffaith eu bod yn cael cyswllt rheolaidd gyda rhieni/gofalwyr trwy ffyrdd mwy anffurfiol, fel galwadau ffôn, negeseuon testun a phlatfformau eraill ar-lein.

3.36. Fodd bynnag, nododd rhai ymarferwyr mewn UCD a Darpariaeth AHY heb fod mewn UCD rai heriau wrth ymgysylltu â rhieni. Roedd y rhain yn cynnwys yr amser sy’n angenrheidiol er mwyn ymgysylltu â nhw yn llwyddiannus a dylanwad eu profiadau blaenorol nhw o addysg, yn enwedig os oeddent wedi bod yn negyddol. Amlygodd un ymarferydd AHY heb fod mewn UCD hefyd bod eu dysgwyr yn cael

eu hatgyfeirio ar draws y sir, felly gallai fod yn heriol weithiau ymgysylltu â rhieni/gofalwyr wyneb yn wyneb.

> "Mae ein holl ganolfannau yn ymgysylltu'n agos â rhieni. Hefyd, wrth gwrs, rydym yn cynnal cyfarfodydd PCP lle y mae gan rieni a'r plentyn lais mawr o ran cynllunio ymlaen law a'r camau nesaf ar gyfer y flwyddyn honno." (Ymarferydd, UCD)

> "Rydym yn cydweithio'n agos iawn gyda rhieni a gofalwyr...yr unig anhawster yw ei bod hi'n cymryd cryn dipyn o amser i berswadio'r rhieni hynny. I rai o'n dysgwyr, os byddant wedi cael profiadau eithaf gwael o'r ysgol ac mae'r rhieni wedi cael profiadau eithaf gwael, maent ychydig yn amharod i gael y sgyrsiau hynny gan eu bod yn credu ei fod yn mynd i fod yn rhywbeth negyddol. Rydych chi'n ceisio newid meddylfryd y teulu cyfan i ddweud y gwir er mwyn cael y dyheadau hynny ac edrych ymlaen." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

## Gwaith aml-asiantaethol

3.37. Cyfeiriodd yr holl ymarferwyr AHY at y ffaith eu bod yn gweithio'n dda gyda phartneriaid a sefydliadau proffesiynol eraill (fel CAMHS, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, cyfiawnder ieuenctid, seicolegwyr addysg) er mwyn cynorthwyo dysgwyr sydd ag 'anghenion cymhleth', yn enwedig mewn perthynas â lles. Er enghraifft, soniodd un ymarferydd AHY heb fod mewn UCD am weithio gyda'r adran seicoleg addysgol lleol sy'n cynnal asesiadau lles ac sy'n cynnig cyngor am anghenion dysgwyr. Adroddwyd bod sefydliadau eraill, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol a chyfiawnder ieuenctid, yn ymwneud â phrosesau atgyfeirio neu fel rhan o bwyllgor rheoli UCD.

3.38. Roedd yr holl ymarferwyr yn barnu bod y cydberthnasoedd hyn yn llwyddiannus wrth gynorthwyo'r dull holistaidd a chynhwysol yr oeddent wedi'i ddatblygu trwy Gwricwlwm i Gymru. Nodont bod y partneriaethau hyn yn cael eu hysgogi gan ddarparwyr AHY yn gyffredinol, lle y "gallant godi'r ffôn a dweud 'mae angen y cymorth hwn arnom, neu a oes modd i ni gael ychydig gyngor?'" (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD).

> "[Fel cymorth i ddysgwyr] mae gennym wasanaethau cymdeithasol, mae gennym bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac felly, cydlynwyr plant sy'n derbyn gofal, mae gennym hwb helpu cynnar, sef y cam hwnnw dan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae gennym gwnsela a gwasanaethau CAMHS." (Ymarferydd, UCD)

3.39. Amlygodd dros hanner yr ymarferwyr AHY bod cydweithio gyda sefydliadau fel Gyrfa Cymru a busnesau lleol yn helpu i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnig profiad gwaith ac arweiniad gyrfaoedd i'w dysgwyr. Nododd yr ymarferwyr hyn bwyslais ar helpu dysgwyr i ddeall y byd o'u cwmpas a hyrwyddo llwybrau ystyrlon i ddysgwyr yr oeddent wedi ymddieithrio o ddarpariaeth academaidd fwy traddodiadol yn flaenorol. Roedd un UCD yn gweithio gyda chwmni lleol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad am yr hyn sy'n gwneud CV da, gan gynnal cyfweliadau chwarae rôl; nododd dwy UCD eu bod yn gweithio gyda busnesau lleol i drefnu lleoliadau profiadau gwaith ar gyfer eu dysgwyr; cyfeiriodd un darparwr AHY heb fod mewn UCD at gysylltiadau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r clwb pêl-droed lleol, a oedd wedi arwain at brofiadau dysgu dilys i ddysgwyr. Mae'n werth nodi nad oedd ymgysylltu â phartneriaid a gwasanaethau allanol yn gyson ar draws darparwyr AHY, a bod amlder y cyswllt gyda'r sefydliadau hyn yn amrywio gan ddibynnu pryd yr oedd darparwyr yn teimlo bod ganddynt fwlch yn eu darpariaeth a phryd y byddai mewnbwn allanol yn werthfawr.

> "Cawsom deithiau i ddiwydiannau lleol ac ystyried y mathau o alwedigaethau a gynigir yno. Unwaith eto, dim ond iddyn nhw [dysgwyr] weld yr hyn sydd o gwmpas oherwydd weithiau bydd ganddynt syniad cul iawn o'r hyn y gallant ei wneud a ble y gallant fynd. Fel rhan o'r dyfarniad hwnnw [Cam 1 addysg a phrofiadau byd gwaith[14]], roeddem yn ceisio agor eu llygaid i bethau eraill yn yr ardal, pa gymwysterau y byddech eu hangen a'r gwahanol ddulliau. Nid yw'n ymwneud â syth i TGAU [i] lefel A yn unig." (Ymarferydd, UCD)

> "Mae gennym ddull gweithredu amlasiantaethol at bopeth .. rydym yn cydweithio'n agos gyda'r trydydd sector hefyd ... credwn ei bod yn bwysig iawn bod ein dysgwyr yn deall y gymdeithas a'r gymuned o'u cwmpas. Felly mae hynny'n golygu ein bod yn gweithio gyda chymaint o wahanol bobl ag sy'n briodol yn ein barn ni." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.40. Nododd y ran fwyaf o ymarferwyr hefyd bod cydweithio yn bwysig wrth gynorthwyo pontio a/neu ailintegreiddio dysgwyr i ddarpariaeth arall. Roedd rhai darparwyr AHY yn defnyddio dull ailintegreiddio graddol, gan gydweithio'n agos gydag ysgolion a darparwyr eraill, er mwyn annog dysgwyr i dreulio mwy o amser mewn lleoliadau prif ffrwd, gan gael unrhyw gymorth gofynnol o hyd. Mae'r "gwaith cydgysylltiedig hwn...yn hanfodol" (Ymarferydd, UCD). Ar gyfer yr ymarferwyr hyn, roedd

---

[14] Am ragor o wybodaeth, gweler [Gyrfa Cymru 2024. Pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith.]

cydweithio yn helpu i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu a bod sgyrsiau am eu cynnydd yn cael eu cynnal.

3.41. Amlygodd nifer o ymarferwyr ffactorau a oedd yn galluogi neu'n hwyluso cydweithio ar gyfer pontio ac ailintegreiddio dysgwyr. Roedd pob UCD yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd, gan bod eu dysgwyr wedi dod o'r rhain ac efallai y byddent yn pontio'n ôl iddynt. Mewn rhai achosion, hwyluswyd cydberthnasoedd rhwng UCDau ac ysgolion prif ffrwd trwy gyfrwng personél cyswllt dynodedig, trafodaethau agored a chyfarfodydd rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth am gynnydd, anghenion a phrofiadau dysgwr.

3.42. Amlinellodd rhai darparwyr AHY heb fod mewn UCD enghreifftiau o'r ffordd yr oeddent wedi cynnal cyfathrebu rheolaidd gydag ysgolion prif ffrwd trwy gyfrwng negeseuon e-bost a chyfarfodydd ar ôl i'r dysgwyr symud i ddarpariaeth arall neu ailintegreiddio mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, roedd dros hanner wedi adrodd am ychydig iawn o gyswllt rheolaidd gydag ysgolion, neu ddim cyswllt o gwbl. Adroddont bod hyn wedi arwain at heriau megis prosesau rhannu data anghyson er mwyn pennu'r hyn yr oedd dysgwyr wedi ei ddysgu yn flaenorol ac wrth gytuno ar gynlluniau cynnydd ar gyfer dysgwyr unigol.

3.43. Yn ogystal, amlinellodd rhai ymarferwyr sut yr oedd ysgolion, darparwyr AHY a'r awdurdod lleol wedi cydweithio i lunio CDU er mwyn sicrhau dull holistaidd o ran diwallu anghenion unigol. Roedd y rhain yn aml yn cynnwys nodau dysgu penodol, strategaethau cymorth, a chynllun ar gyfer pontio.

> "Rydw i'n credu mai un o'r pethau a oedd yn gweithio'n dda oedd ein tîm [ar gyfer] partneriaeth rhieni yn yr ysgol – grŵp o staff awdurdod lleol yn gysylltiedig â phob ysgol uwchradd – a gallem gynnig cyngor ynghylch a oedd yn ymwneud ag ymddygiad neu orbryder, osgoi'r ysgol. Gallai [ysgolion] gyfeirio at fyfyrwyr sy'n destun pryder, a gallem gynnig cyngor a allai fod o gymorth er mwyn helpu i'w cadw yn yr ysgol cyn iddynt drosglwyddo atom ni. Roedd llawer o waith cydgysylltiedig. Ac wedyn pe baent yn dod atom ni, byddem yn gwybod ychydig yn fwy am y person ifanc hwn a'r hyn a fyddai'n ennyn eu diddordeb efallai." (Ymarferydd, UCD)

> "Mae gennym swyddog cyswllt ysgol sef yr un sy'n cael cyswllt uniongyrchol gyda'r ysgolion. Hi fydd yr un a fydd yn anfon y wybodaeth a'r adroddiadau drosodd ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r hyfforddwyr cyflawni." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

> "Bydd gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau allanol yn cysylltu weithiau, mae un cynrychiolydd ysgol yn dod yma bob wythnos i weld sut y mae eu plant yn gwneud, bydd eraill yn gohebu gyda ni trwy gyfrwng negeseuon e-bost yn unig, ac mae'r cyswllt gydag eraill ar goll yn llwyr." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.44. Roedd mecanweithiau mewn grym ar draws darparwyr AHY i gynnig dull mwy graddol o bontio ar gyfer dysgwyr a fyddai'n cael budd gan hyn (er enghraifft, caniatáu iddynt dreulio amser mewn ysgol prif ffrwd gyda rhywun yr oeddent yn gyfarwydd â nhw o'r ddarpariaeth AHY a oedd yn bresennol). Roedd yn ymddangos bod y dull hwn yn gyson i raddau helaeth ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr AHY.

> "Rydym yn cyfarfod gyda'r ysgolion neu ddarparwr [y dysgwr] ymlaen llaw. Yna byddwn yn mynd ar ymweliadau gyda nhw hefyd. Byddwn yn aml yn symud ein sesiynau i adeiladau'r [darparwr arall], felly byddant yn dod ychydig yn fwy cyfarwydd â'r adeiladau i ddechrau. Ac mae'n raddol... weithiau bydd [staff y darparwr] hyd yn oed yn mynd i mewn i ddosbarth gyda [dysgwyr] os bydd angen iddynt wneud hynny." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

> "Byddwn yn cael cyfarfodydd pontio gydag ysgolion neu awdurdodau lleol eraill os byddant yn pontio i awdurdod lleol gwahanol, bydd dros gyfnod o wythnosau, misoedd hyd yn oed. Weithiau, byddwn yn cynorthwyo'r person ifanc hwnnw ac yn mynychu'r ysgol gyda nhw os bydd rhaid. Byddwn yn rhannu'r data gyda'r ysgol a'r athro dosbarth a'r holl staff cymorth." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

## Cydweithio gydag awdurdodau lleol

3.45. Nododd yr holl gynrychiolwyr awdurdodau lleol bod anghenion dysgwyr yn allweddol wrth bennu'r math o ddarpariaeth AHY sy'n cael ei neilltuo, ynghyd â ffactorau fel iechyd meddwl, iechyd corfforol, cynnydd academaidd, ac ymgysylltu ag addysg prif ffrwd. Amlygodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol, mewn rhai achosion, bod prosesau ffurfiol fel Paneli Mynediad Teg[15] a phaneli darpariaeth arbenigol, yn cael eu defnyddio i asesu anghenion dysgwyr a gwneud penderfyniadau am leoliadau AHY. Roedd y paneli hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o asiantaethau amrywiol, gan gynnwys yr awdurdod lleol, ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill.

> "Bydd pob dysgwr yn mynd trwy banel mynediad teg er mwyn mynychu darpariaeth AHY. Am resymau amlwg, ni all y rhai sy'n dod atom ni fanteisio ar ddarpariaeth amser llawn, mae gan gymaint ohonynt anghenion iechyd meddwl neu anghenion iechyd corfforol ac nid ydynt yn ymdopi gyda'r math hwnnw o ddisgwyliad amser llawn." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

> "Mae gennym rai sy'n cyrraedd trwy'r panel lleoli o'r awdurdod lleol. Felly, bydd ysgolion yn gwneud cais am le, yna byddwn yn cael cymysgedd eithaf

[15] Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion (Dogfen Cod Statudol rhif: 005/2013, 7/2013) yn datgan bod yn rhaid bod gan bob awdurdod lleol brotocolau priodol mewn grym i dderbyn plant y maent yn eu hystyried yn anodd i'w lleoli, fel bod plant heb eu lleoli, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael cynnig lle addas mewn ysgol yn brydlon. Mae Paneli Mynediad Teg yn un dull o sicrhau mynediad teg i bob dysgwr.

> eclectig o blant, ymddygiad, anghenion. Rydw i'n eistedd ar banel [Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) bob pythefnos] gyda phedwar neu bump gweithiwr proffesiynol arall yn yr awdurdod lleol. Yna, gwneir y penderfyniad [ynghylch] a ddylem fwrw ymlaen gyda lleoliad mewn lleoliad arbenigol fel [Enw'r ddarpariaeth wedi'i hepgor]." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol/UCD)

3.46. Adroddodd dros hanner y cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod ganddynt fecanweithiau sicrhau ansawdd yn eu lle i fonitro'r ddarpariaeth AHY a gynigir yn eu hawdurdodaeth a sicrhau tegwch i ddysgwyr yr oeddent yn symud rhwng gwahanol ddarpariaeth addysgol. Roedd y rhain yn cynnwys asesu addasrwydd y cwricwlwm a pha mor berthnasol ydyw i anghenion dysgwyr; adolygu mesurau diogelu sydd mewn grym; ac ansawdd cyffredinol y profiad dysgu. Fodd bynnag, nodwyd heriau parhaus hefyd oherwydd y dybiaeth bod mwy o hyblygrwydd yng Nghwricwlwm i Gymru, er enghraifft y diffyg cwricwlwm awdurdod lleol safonol ar draws gwahanol ddarpariaeth addysg, yn ogystal ag anghysondebau o ran casglu a rhannu data, yr adroddwyd amdanynt. Adroddodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod hyn wedi arwain at heriau i ymarferwyr wrth gynorthwyo dysgwyr sy'n pontio o AHY i ysgol brif ffrwd neu i'r gwrthwyneb, ac roedd hon yn farn a adleisiwyd gan sawl ymarferydd AHY.

> "Un o beryglon mwyaf Cwricwlwm i Gymru yw os bydd pob ysgol yn mynd i ffwrdd ac yn datblygu eu cwricwla eu hunain, wrth i blant symud ar draws lleoliadau, bydd y pontio hwnnw yn mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth gan eu bod yn cael eu parasiwtio i mewn i ysgol." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

3.47. Er mwyn ceisio rhoi sylw i'r heriau tybiedig hyn sy'n ymwneud â phontio rhwng darpariaeth, amlygodd un cynrychiolydd awdurdod lleol bod eu hawdurdod lleol yn cyflogi swyddogion gwella addysg, yr oedd eu rôl yn canolbwyntio ar ddatblygu a monitro gweithrediad Cwricwlwm i Gymru ar draws darpariaeth AHY. Nododd cynrychiolydd arall bwysigrwydd systemau sicrhau ansawdd o fewn eu UCD leol.

> "Mae gennym wasanaeth gwella addysg, ac mae rheolwr y gwasanaeth yn integreiddio gyda'r coleg yn gyson, a byddant yn gwneud pethau fel sicrhau'r ffordd y mae'r ddarpariaeth wedi cael ei mapio, felly mae hynny'n gadarn iawn...weithiau fel y UCD, er enghraifft, byddant yn cynnig darpariaeth eithaf eang a dyna ble y mae ein mecanweithiau sicrhau ansawdd UCD yn camu i mewn i sicrhau bod hynny'n effeithiol." (Cynrychiolydd, Awdurdod Lleol)

3.48. Adroddodd dros hanner y darparwyr AHY heb fod mewn UCD am ddiffyg cyfathrebu a chymorth gan awdurdodau lleol ynghylch Cwricwlwm i Gymru, ac ystyriwyd bod hyn wedi creu heriau wrth ddeall a gwireddu agweddau mandadol. Amlygodd rhai

darparwyr AHY heb fod mewn UCD yr angen i wella'r broses o rannu gwybodaeth a data gydag ysgolion prif ffrwd am anghenion a chynnydd dysgwyr; datblygu dulliau cyson o ran y cwricwlwm ac asesu; yn ogystal ag alinio hyfforddiant a rhannu arbenigedd. Adroddodd un ymarferydd AHY heb fod mewn UCD bod ganddynt gyd berthnasoedd da gydag adran benodol o fewn yr awdurdod lleol, er nad oedd hyn mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, sy'n awgrymu bod y cydberthnasoedd rhwng darparwyr AHY ac awdurdodau lleol yn niferus ac yn amrywio o ran eu natur.

> "Credaf bod angen i ni gydweithio gyda'r awdurdod lleol ac ysgolion i sicrhau ein bod i gyd yn dilyn yr un drefn. Gan bod ein plant gyda ni am gyfnod byr fel y tybir... maent yn dod atom ac yna, byddant yn mynd i ysgol uwchradd arall ar ôl bod gyda ni, felly mae angen i ni fod y cyswllt." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)
>
> "Nid yw'r awdurdod lleol yn siarad â ni rhyw lawer yn benodol. Maent yn eithaf anodd mewn gwirionedd. Felly, daw ein cyswllt ni o'r ysgolion yn bennaf." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)
>
> "[Nid ydym yn cael cyswllt gyda'r awdurdod lleol] o ran y [cynllunio neu gynnwys y] cwricwlwm, ond mae gennym gyd berthnasoedd da iawn gyda'r awdurdod lleol yn yr Adran Addysg yn y Cartref a gyda'r ysgolion yr ydym yn gweithio gyda nhw." (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.49. Awgrymodd rhai ymarferwyr mewn UCDau y gallai sefydlu platfformau er mwyn rhannu arfer a dysgu helpu ymarferwyr i ddysgu o brofiadau ei gilydd a rhoi sylw i heriau ar y cyd, boed hynny ar-lein neu thrwy gyfrwng cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, nodont ei bod yn gallu bod yn anodd sicrhau'r amser i gydweithio. Awgrymodd un ymarferydd UCD y gellid defnyddio offerynnau cydweithio ar-lein fel dogfennau cyffredin i rannu arfer yn hytrach na gorfod sicrhau'r amser i gyfarfod wyneb-yn-wyneb.

> "Rydw i'n hoffi'r syniad o gydweithio'n fwy agos gydag Unedau Cyfeirio Disgyblion eraill... [ond] mae'n anodd gan ein bod yn bell iawn i ffwrdd [yn ddaearyddol] a gallu cael eich rhyddhau pan fydd angen i chi fod yn addysgu yn ystod diwrnod ysgol... mawr obeithiaf y gallwn sicrhau ffordd o osod deunydd ar yriant cyffredin yn y dyfodol, ond byddwch yn cael [eich gwahodd i] ragor o gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb." (Ymarferydd, UCD)

## Dysgu proffesiynol

3.50. Adroddodd bron pob ymarferydd UCD eu bod yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, er bod y dystiolaeth yn dynodi bod hyn yn amrywio o ran graddau dysgu proffesiynol a pha mor ddiweddar yr oeddent wedi manteisio ar gymorth o'r fath. Roedd rhai wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a ddarparwyd gan gonsortia

addysgol rhanbarthol[16] a oedd wedi rhoi sylw i feysydd fel cynllunio cwricwlwm, arweinyddiaeth, ac asesu. Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn darparu cyllid er mwyn rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant ac yn cynorthwyo cydweithio rhwng UCDau i ddatblygu cwricwla a rhannu dulliau. Nododd ymarferwyr mewn UCDau a oedd wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol fanteision megis bod yn fwy cyfarwydd gyda Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y pedwar diben a themâu trawsgwricwlaidd. Roedd rhai yn manteisio ar hyfforddiant gan ddarparwyr masnachol hefyd nad ydynt yn gysylltiedig â rhaglenni a ariannir gan Lywodraeth Cymru, er nad oedd y graddau y mae'r rhain yn cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn glir.

> "Bu rhywfaint [o ddysgu proffesiynol] ar-lein a rhywfaint wyneb-yn-wyneb a gwnaethom rywfaint gyda'n grŵp clwstwr. Nid ydw i'n credu ein bod wedi cael cymaint yn ddiweddar – pan oedd [Cwricwlwm i Gymru] yn cael ei gyflwyno, wrth gwrs, roedd mwy o ymdrech yn ystod y camau cynnar. Defnyddiom rai o'n sesiynau gyda'r hwyr hefyd i rannu ein hunain ar draws y [sefydliad] yn wahanol Feysydd er mwyn ystyried gwahanol dasgau." (Ymarferydd, UCD)

> "Gwneuthum rywfaint o hyfforddiant ar gyfer Dysgu ar gyfer Rhagoriaeth [darparwr hyfforddiant masnachol], ychydig flynyddoedd yn ôl nawr. Bu hwnnw'n ddefnyddiol, ac roedd yn dangos sut y gallwn wirioneddol weithio gyda'r pedwar diben a sut y gall y pynciau groesi drosodd, a sut y gallwch greu map meddwl o'ch syniadau ar sail thema yn hytrach na phwnc penodol. Yna, gallwch weld ble a sut y mae hwn i gyd yn cyd-fynd. Ac rydw i'n edrych yn ôl ac yn cyfeirio at hynny weithiau gyda fy ngwaith cynllunio." (Ymarferydd, UCD)

3.51. Adroddodd rhai ymarferwyr AHY am heriau wrth fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a'u bod yn aml yn defnyddio hyfforddiant mewnol yn lle hynny. Roedd enghreifftiau o hyfforddiant mewnol yn cynnwys:

- rhannu arbenigedd mewnol (h.y., efallai y byddai ymarferydd sy'n arbenigo mewn arfer ystyriol o drawma yn arwain sesiynau ar gyfer y staff eraill); ymarferwyr yn rhannu eu gwybodaeth o wahanol arbenigeddau pwnc, fel celf er mwyn cynorthwyo dysgu trawsgwricwlaidd yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru

[16] Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle, y bydd Llywodraeth Cymru yn "dwyn ynghyd swyddogaethau presennol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a rhai o swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a phartneriaethau awdurdodau lleol i gorff cenedlaethol newydd. Bydd y corff cenedlaethol yn gyfrifol am lunio a darparu dysgu proffesiynol a chymorth arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol mewn ymateb i anghenion a blaenoriaethau ymarferwyr a Llywodraeth Cymru." (Llywodraeth Cymru, 2024h).

- mabwysiadu dull sy’n seiliedig ar anghenion (h.y., comisiynu neu ddatblygu hyfforddiant gan ymateb i anghenion penodol a nodwyd yn y lleoliad, megis cynorthwyo ADY penodol, cymorth ymddygiad, neu strategaethau addysgu a dysgu)
- lledaenu gwybodaeth (h.y., lledaenu gwybodaeth o hyfforddiant allanol y mae rhai aelodau o staff wedi ei fynychu i weddill y tîm)

> “Rydym yn gwneud llawer o hyfforddiant mewnol. Rydym yn gwneud llawer o ddatblygiad proffesiynol ...dysgu personol hefyd ac rydym yn tueddu i ledaenu [adnoddau hyfforddiant] ymhlith ein hunain.” (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.52. Amlygodd rhai ymarferwyr bod cyfleoedd hyfforddiant gan y consortia addysg rhanbarthol a’r awdurdod lleol yn aml heb fod yn cynnwys ffocws penodol ar heriau a chyd-destunau unigryw darparwyr AHY, a’r dysgwyr sy’n mynychu eu darpariaeth. Roeddent yn teimlo bod y cyfleoedd hyn yn aml yn cael eu cynllunio ar gyfer ysgolion prif ffrwd, heb fawr iawn o ystyriaeth o wahanol heriau a dynameg darpariaeth AHY, megis dosbarthiadau llai o faint a mwy o ffocws ar ddysgu unigoledig. I’r ymarferwyr hyn, roedd cynnwys yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei fynychu yn rhy gyffredinol ac nid oedd yn ystyried anghenion penodol ac amrywiol dysgwyr AHY (er enghraifft anghenion cymdeithasol, emosiynol, iechyd ac ymddygiadol). Yn yr un modd, weithiau ystyriwyd bod yr hyfforddiant yn rhy ddamcaniaethol ac nad oedd yn cynnwys digon o enghreifftiau ymarferol y byddai modd eu gweithredu yn uniongyrchol yng nghyd-destun darpariaeth AHY. Adroddodd ymarferwyr bod hyn yn ei gwneud hi’n anodd iddynt ddefnyddio’r hyfforddiant yn eu gwaith dyddiol.

> “Mae’n anodd iawn dod o hyd i rywbeth mor niche ag yr ydym yn dymuno ei wneud ... pan fyddwn yn rhwydweithio, rydym yn ceisio gweld a oes unrhyw beth y mae rhywun arall yn ei wneud y gallwn ei ddefnyddio, ond nid oes unrhyw un [yn cynnig darpariaeth] mor niche ag yr ydym ni.” (Ymarferydd, AHY heb fod mewn UCD)

3.53. Adroddodd nifer fach o ymarferwyr ei bod hi’n anodd cael eu rhyddhau i ymgysylltu â hyfforddiant allanol, a bod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i fanteisio ar ddysgu proffesiynol. Amlygont bod darpariaeth AHY yn aml yn cael ei rhedeg gan dimau bychain, sy’n golygu y gallai rhyddhau un neu ddau ymarferydd i fynychu hyfforddiant hyd yn oed, darfu’n sylweddol ar y ddarpariaeth. Adroddodd rhai hefyd

am heriau methu gallu trefnu staff cyflenwi priodol, gan danlinellu'r effaith ar ddysgwyr o ganlyniad i newidiadau tymor byr hyd yn oed i'r staff a'r amgylchedd dysgu.

> "Mae'n daith yr ydym arni ac mae'n ymwneud â sicrhau'r hyfforddiant perthnasol i staff.  Ond yna rydych chi'n ofalus mewn UCD nad ydych chi'n dymuno i'ch staff fod oddi ar y safle gan nad ydych chi'n gallu cael staff cyflenwi o ansawdd da i ddod i mewn gan bod y disgyblion yn cymryd amser i ymgyfarwyddo ag oedolion newydd yn yr amgylchedd." (Ymarferydd, UCD)

# 4. Casgliadau

## Casgliadau mewn perthynas â chwestiynau ymchwil

### Cwestiwn Ymchwil 1: Ym mha ffyrdd y mae darparwyr AHY yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

4.1. Roedd hi'n farn gyffredin ymhlith ymarferwyr AHY bod rhai o'r prif fanteision o weithredu Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys mwy o ymgysylltu gyda dysgwyr, gwelliant o ran cymhelliant, mwy o ffocws ar anghenion a dyheadau dysgwyr, a dealltwriaeth fwy holistaidd o gynnydd dysgwyr. Amlygodd rhai ymarferwyr ymddygiad gwell ymhlith dysgwyr hefyd, trwy gyfrwng dull mwy holistaidd o ddysgu, sy'n gwerthfawrogi lles a datblygiad personol.

4.2. Amlygodd rhan fwyaf o ymarferwyr AHY fanteision hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru ac roeddent yn teimlo bod ei ethos yn cyd-fynd yn dda â'r ddarpariaeth a'r amgylchedd dysgu cefnogol yr oeddent eisoes yn ei gynnig. Iddyn nhw, roedd Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu cyfleoedd pellach i gynllunio cwricwla pwrpasol er mwyn bodloni anghenion, galluoedd a diddordebau amrywiol dysgwyr unigol, gan adlewyrchu amgylchedd meithringar a dulliau eu darpariaeth AHY bresennol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

4.3. Roedd rhan fwyaf y cynrychiolwyr o awdurdodau lleol yn barnu bod hyblygrwydd Cwricwlwm i Gymru yn cynorthwyo galluogedd a pherchnogaeth ymarferwyr, ac yn eu galluogi i ddatblygu'r cwricwlwm yn unol â'u cyd-destun lleol ac anghenion y dysgwyr. Roedd y cynrychiolwyr hyn yn teimlo bod hon yn ffordd fuddiol o gynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu dilys i ddysgwyr, yn ogystal â meithrin cysylltiadau gyda grwpiau cymunedol lleol.

4.4. Pwysleisiwyd bod iechyd a lles yn flaenoriaeth i ddysgwyr ar draws yr holl ddarpariaeth AHY ac amlygodd rhan fwyaf y cyfranogwyr bod hon yn agwedd graidd ar ddarpariaeth eu cwricwlwm. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys cydweithio gydag asiantaethau allanol fel CAMHS a'r gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymorth holistaidd ac unigoledig i ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd gwireddu Cwricwlwm i Gymru wedi annog ymarferwyr i ystyried sut y byddai modd integreiddio iechyd a lles mewn cyd-destun mwy trawsgwricwlaidd. Amlygodd y

rhan fwyaf o ymarferwyr AHY a chynrychiolwyr awdurdodau lleol y ffaith bod yr integreiddio hwn law yn llaw â dulliau mwy hyblyg o gynnig amgylcheddau dysgu yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr; er enghraifft, trwy ddysgu a chynnal gweithgareddau yn yr awyr agored, ymgysylltu cymunedol, therapi cerddoriaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar.

4.5. O fewn darpariaeth AHY, roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio llais y dysgwr er mwyn cynnwys diddordebau a dewisiadau dysgwyr wrth gynllunio'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau adborth a thrafodaethau a chynnwys llais y dysgwr wrth ddatblygu CDU. Roeddent yn credu bod y dull hwn yn creu profiadau dysgu sy'n ennyn mwy o ddiddordeb.

4.6. Roedd bron i hanner yr ymarferwyr AHY heb fod mewn UCD yn barnu nad oedd Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iawn i'w darpariaeth nhw. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y ffaith bod ganddynt wahanol flaenoriaethau dysgu nad ydynt yn rhai academaidd, a ffocws ar anghenion cyflogadwyedd a galwedigaethol. Roedd hyn yn ymwneud â dysgwyr cofrestriad deuol, felly roeddent yn mynychu ysgolion prif ffrwd hefyd. O'r herwydd, nid oedd yr ymarferwyr hyn yn teimlo bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at newidiadau i'w darpariaeth neu eu harfer nhw.

### Cwestiwn Ymchwil 2: I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae cwricwlwm a threfniadau asesu Cwricwlwm i Gymru wedi galluogi darparwyr AHY i gynorthwyo eu dysgwyr? (Lle y mae trefniadau yn cynnwys cynllunio; addysgu a dysgu; adolygu'r cwricwlwm; ac asesu)

4.7. Adroddodd bron pob ymarferydd eu bod yn canolbwyntio ar gynnydd unigol dysgwyr, yn hytrach na thargedau cyrhaeddiad penodedig. Roedd y mwyafrif yn barnu bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn cynorthwyo newid cadarnhaol tuag at dderbyn dulliau mwy holistaidd ac ansoddol o asesu o fewn darpariaeth AHY.

4.8. Adroddodd rhai ymarferwyr AHY am ddatblygiadau cadarnhaol o ran y ffordd yr oedd trefniadau asesu Cwricwlwm i Gymru wedi helpu dysgwyr i ddeall eu cynnydd eu hunain. Amlinellont newid tuag at ddulliau mwy ffurfiannol sy'n cynorthwyo hunanymwybyddiaeth dysgwyr a'u hymgysylltiad gyda'u taith addysgol. Amlygodd rhai cyfranogwyr yr arfer o ddathlu datblygiad dysgwyr mewn meysydd y gallent

gael eu hanwybyddu gan ysgolion prif ffrwd (er enghraifft, presenoldeb, ymddygiad, ac agweddau at ddysgu), a oedd yn helpu i newid persbectifau dysgwyr am yr hyn y gall llwyddiant ei olygu.

4.9. Nododd dros hanner yr ymarferwyr AHY bod lles a datblygiad personol yr un mor bwysig â chynnydd academaidd. Mae hyn wedi arwain at osod Maes Iechyd a Lles wrth wraidd eu darpariaeth AHY, ac mae asesiadau yn eu lle i fonitro'r datblygiad hwn. Fodd bynnag, adroddodd rhai am heriau wrth fesur cynnydd ym meysydd lles ac ymgysylltu â dysgu.

4.10. Adroddodd tua hanner yr ymarferwyr bod arosiadau neu ymyriadau tymor byr i ddysgwyr o fewn darpariaeth AHY yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiadau ystyrlon sy'n cynnig dirnadaeth o gynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r camau cynnydd. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr o'r farn, gan nad oes ffordd ragnodedig o fesur cynnydd, bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd alinio a chymharu cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio i ac o ysgolion prif ffrwd.

4.11. Roedd hi'n farn gyffredin ymhlith ymarferwyr bod gwaredu targedau cyrhaeddiad yn cyflwyno heriau a oedd yn ymwneud â sut a phryd i gynnal asesiadau. Adroddwyd bod hyn – ynghyd â defnyddio gwahanol strategaethau adrodd, disgwyliadau amrywiol ynghylch pa fetrigau sy'n dynodi cynnydd, a dulliau anghyson o rannu data rhwng darparwyr addysg – wedi ei gwneud hi'n anodd alinio a chymharu cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio.

4.12. Gan bod dysgwyr yn aml yn mynychu darpariaeth AHY am gyfnodau byr yn unig, amlygodd ymarferwyr bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiadau ystyrlon sy'n ymwneud â chamau cynnydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd hi'n hawdd gweld na mesur y cynnydd a gaiff ei sicrhau gan ddysgwyr mewn meysydd eraill (er enghraifft, lles ac ymddygiad) trwy lens Cwricwlwm i Gymru.

4.13. Mynegwyd rhai pryderon gan rai ymarferwyr am y diffyg canllawiau sydd ar gael fel sylfaen ar gyfer y cymwysterau TGAU a TAAU newydd.[17] Roedd hyn wedi peri pryder ynghylch a oeddent yn bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru ac yn paratoi eu dysgwyr mewn ffordd effeithiol ar gyfer arholiadau.

[17] Dylid nodi, ers cwblhau'r gwaith maes, bod CBAC (2024) wedi rhyddhau eu manylebau drafft TGAU Gwneud-i-Gymru i'w haddysgu o fis Medi 2025. Bydd y TAAU ar gael i ddysgwyr 14 i 16 oed o fis Medi 2027, a chaiff y manylebau eu rhyddhau yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27 (Llywodraeth Cymru, 2024a).

## Cwestiwn Ymchwil 3: Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio (neu'n cymryd rhan mewn deialog broffesiynol) er mwyn cynorthwyo dysgwyr AHY?

4.14. Roedd hi'n arfer cyffredin i ddarparwyr AHY gydweithio gyda rhanddeiliaid amrywiol megis rhieni/gofalwyr, awdurdodau lleol, ymarferwyr iechyd a seicolegwyr addysg er mwyn cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu a chynnydd, iechyd a lles dysgwyr, ac addysg a phrofiadau byd gwaith. Daeth addysg a phrofiadau byd gwaith i'r amlwg fel maes arbennig y rhoddwyd pwyslais arno wrth i ddarparwyr gydweithio ag eraill, gyda dros hanner yr ymarferwyr yn amlygu sut y mae dysgu cysylltiedig â gwaith yn creu llwybrau ystyrlon i ddysgwyr yr oeddent wedi ymddieithrio o ddulliau academaidd mwy traddodiadol yn flaenorol.

4.15. Adroddodd pob UCD eu bod yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd, gan bod eu dysgwyr wedi cael eu hatgyfeirio o fan hyn, ac efallai y byddant yn pontio'n ôl i'r fan hyn. Mewn rhai achosion, lle'r oedd cydweithio yn gweithio'n dda rhwng UCDau ac ysgolion prif ffrwd, roedd cyfathrebu agored a chyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth am gynnydd, anghenion a phrofiadau dysgwr yn cael eu hwyluso gan bersonél cyswllt dynodedig, gan arwain at ddull mwy holistaidd a chydgysylltiedig er mwyn bodloni anghenion dysgwr.

4.16. Fodd bynnag, adroddodd dros hanner y darparwyr AHY heb fod mewn UCD nad oeddent yn cael unrhyw gyswllt neu fawr iawn o gyswllt gydag ysgolion prif ffrwd. Arweiniodd hyn at heriau tybiedig megis prosesau rhannu data a chyfathrebu anghyson er mwyn pennu'r hyn yr oedd dysgwyr wedi ei ddysgu yn flaenorol ac wrth gytuno ar sut y dylai cynnydd ymddangos i wahanol ddysgwyr.

## Cwestiwn Ymchwil 4: A yw ymarferwyr mewn UCDau yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol a chymorth er mwyn cynorthwyo wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu?

4.17. Adroddodd bron pob ymarferydd a oedd yn gweithio mewn UCD eu bod wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol mewn meysydd a oedd yn cynnwys cynllunio cwricwlwm, arweinyddiaeth ac asesu. Nododd yr ymarferwyr hyn bod ymgysylltu â dysgu proffesiynol o fudd iddynt a'i fod yn gwella eu gwybodaeth o agweddau allweddol ar Gwricwlwm i Gymru, megis y pedwar diben a themâu trawsgwricwlaidd.

4.18. Fodd bynnag, amlygodd rhai y ffaith nad oedd y dysgu proffesiynol a gynigir gan gonsortia addysg ac awdurdodau lleol wedi rhoi sylw i'r heriau penodol y mae darparwyr AHY yn eu hwynebu, megis yr angen am ddosbarthiadau llai, staffio cyfyngedig, a chyfrannau uwch o ddysgwyr sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol a meddyliol ac anghenion cymorth ymddygiad. Adroddodd rhai ymarferwyr AHY eu bod yn defnyddio hyfforddiant mewnol yn lle dysgu proffesiynol allanol. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys rhannu arbenigedd mewnol a chomisiynu/datblygu hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb i'r angen, megis cynorthwyo ADY penodol, cymorth ymddygiad, neu strategaethau addysgu a dysgu.

### Cwestiwn Ymchwil 5: A yw AHY heb fod mewn UCD yn cael cwricwlwm wedi'i gynllunio gan awdurdod lleol, yn unol â'r ddeddfwriaeth?

4.19. Er gwaethaf y ffaith bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cwricwla priodol i ddysgwyr sy'n cael eu cyfeirio at ddarpariaeth AHY heb fod mewn UCD, adroddodd dros hanner y darparwyr hyn eu bod yn datblygu eu dull eu hunain weithiau gan nad ydynt yn cael fawr iawn o gyfarwyddyd. Roedd rhai darparwyr yn barnu bod hyn wedi creu heriau iddynt wrth ddeall a gwireddu agweddau mandadol ar y Fframwaith. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw dysgwyr ar draws darpariaeth AHY yn cael mynediad teg i ddysgu sy'n adlewyrchu gofynion y Fframwaith.

### Cwestiwn Ymchwil 6: Sut mae'r awdurdod lleol yn penderfynu pa ddarpariaeth AHY ddylid ei darparu i ddysgwyr?

4.20. Nododd yr holl gynrychiolwyr awdurdodau lleol bod anghenion dysgwyr yn ystyriaeth ganolog wrth benderfynu ar y math o ddarpariaeth AHY sy'n cael ei neilltuo, ynghyd â ffactorau fel iechyd meddwl, iechyd corfforol, cynnydd academaidd, ac ymgysylltu ag addysg prif ffrwd. Roedd penderfyniadau ynghylch lleoliadau AHY yn cynnwys nifer o randdeiliaid ac weithiau, defnyddiwyd prosesau ffurfiol megis Mynediad Teg neu ddarpariaeth arbenigol.

4.21. Adroddodd dros hanner y cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod ganddynt fecanweithiau sicrhau ansawdd yn eu lle i fonitro'r ddarpariaeth AHY a gynigir yn eu hawdurdodaeth er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr sy'n symud rhwng gwahanol

ddarparwyr. Roedd y rhain yn cynnwys asesu addasrwydd y cwricwlwm a'i berthnasedd i anghenion dysgwyr; adolygu mesurau diogelu; ac ansawdd cyffredinol y profiad dysgu.

### Meysydd i'w hystyried

4.22. Canfu'r gwaith maes dystiolaeth gyfyngedig i ddynodi a yw'r cwricwla a ddarperir gan awdurdodau lleol yn ddigonol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr AHY heb fod mewn UCD. Felly, efallai y bydd angen mwy o gymorth gan awdurdodau lleol i gryfhau'r maes hwn. Dylid archwilio'r meysydd ystyriaeth canlynol er mwyn hwyluso hyn:

- dylai awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth AHY heb fod mewn UCD yn bodloni gofynion mandadol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob dysgwr AHY
- dylid sefydlu sianelau cyfathrebu clir rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd, a darparwyr AHY heb fod mewn UCD ynghylch gweithredu'r cwricwlwm
- pan nad oes rhai yn bodoli, dylai awdurdodau lleol sefydlu prosesau sicrhau ansawdd diffiniedig er mwyn monitro ac adolygu'r ddarpariaeth AHY heb fod mewn UCD, gan neilltuo cyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd glir
- dylai awdurdodau lleol gynnal cyswllt rheolaidd gyda darparwyr AHY heb fod mewn UCD trwy gyfrwng swyddogion cyswllt dynodedig/aelod o staff enwebedig, fel bod llinell gymorth gyson ar gyfer ymholiadau cwricwlwm
- dylid cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddarparwyr AHY heb fod mewn UCD sy'n gweithredu o fewn neu sy'n cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol, fel eu bod yn ymwybodol o ofynion Cwricwlwm i Gymru ac yn cael eu cynorthwyo i'w bodloni mewn ffordd effeithiol

4.23. Amlygodd yr astudiaeth hon sawl maes lle y byddai modd gwella'r cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddarparwyr AHY mewn UCD a heb fod mewn UCD. Dylid archwilio'r meysydd canlynol er mwyn hwyluso hyn:

- dylid cynorthwyo cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng darparwyr AHY; byddai hyn yn galluogi ymarferwyr i rannu arbenigedd ynghylch y ffordd orau o gynorthwyo anghenion dysgwyr yng nghyd-destun heriau cyffredin
- dylid datblygu cynnig dysgu proffesiynol mwy cydlynol ar draws awdurdodau lleol; byddai hyn yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyson o ofynion Cwricwlwm i Gymru a'r cymorth y mae ei angen ar ddysgwyr AHY sy'n pontio ar draws darpariaeth
- dylai digwyddiadau dysgu proffesiynol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ystyried amrywiaeth cyd-destunau a dysgwyr AHY, er mwyn sicrhau bod y cynnig dysgu proffesiynol yn fwy perthnasol i ddarparwyr AHY
- dylid darparu enghreifftiau arfer da o broses asesu at ddefnydd UCDau, byddai hyn yn cryfhau arferion asesu ar gyfer y darparwyr AHY hyn

4.24. Gallai'r pwyntiau sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol fod yn ystyriaethau pwysig ar gyfer y corff Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth sy'n anelu i fod yn weithredol o flwyddyn academaidd 2025/26 (Llywodraeth Cymru, 2025), a'r hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae cynnig dysgu proffesiynol mwy cydlynol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn bwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson o ofynion Cwricwlwm i Gymru a sut y gall edrych i ddysgwyr AHY sy'n pontio ar draws darpariaeth. Dylai unrhyw hyfforddiant a/neu ddysgu proffesiynol a gynigir gynnig rhai enghreifftiau cymhwysol hefyd o sut y gallai Cwricwlwm i Gymru edrych yn ymarferol o fewn cyd-destun AHY (er enghraifft, dosbarthiadau bychain, dysgwyr ar leoliadau tymor byr, a dysgwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl neu ADY).

4.25. Nododd y gwaith ymchwil yr angen am ddulliau mwy cadarn er mwyn hwyluso gweithgarwch rhannu data effeithiol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, a darparwyr AHY er mwyn cynorthwyo cynnydd a threfniadau asesu wrth i ddysgwyr bontio rhwng darparwyr. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau er mwyn creu platfform digidol cyffredin diogel ar gyfer ysgolion prif ffrwd, awdurdodau lleol, a darparwyr AHY sy'n hygyrch i bob rhanddeiliad ac sy'n galluogi:

- diweddariadau amser-real ynghylch cynnydd dysgwyr
- trosglwyddo data asesu mewn ffordd ddi-dor

- cofnodi strategaethau cymorth llwyddiannus a meysydd o ddiddordeb personol dysgwyr
- cofnodi anghenion penodol dysgwyr (e.e., anghenion iechyd, cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, ADY, iechyd corfforol) ac ymyriadau presennol

4.26. Byddai modd adnabod cydlynwyr pontio dynodedig ym mhob darpariaeth (ysgolion prif ffrwd a darparwyr AHY) er mwyn hwyluso pontio esmwyth i ddysgwyr. Byddai'r rolau hyn yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth amserol a chyflawn yn cael ei rhannu rhwng darparwyr.

4.27. Byddai modd archwilio sefydlu fforymau ymarferwyr traws-sector rheolaidd er mwyn cynorthwyo wrth rannu arfer effeithiol a gwella profiadau pontio i ddysgwyr.

4.28. Bu'r broses o sicrhau crynodebau cwricwlwm UCD ar gyfer yr astudiaeth hon yn heriol a dylai gwaith ymchwil pellach ystyried pa welliannau y byddai modd eu gwneud o ran eu gweledfedd a'u hargaeledd. Gallai hyn gynnwys archwilio a oes anawsterau ymhlith UCDau wrth iddynt ddatblygu eu crynodebau, ac os felly, pa gymorth y byddai modd ei ddarparu efallai i oresgyn hyn. Yn ogystal, dylid ystyried sut y gellir integreiddio asesiad o'r crynodebau hyn mewn prosesau sy'n bodoli eisoes, fel arolygiadau Estyn.

# Atodiad A: Cyfeiriadau

Alvesson, M., a Sköldberg, K. (2017). Reflexive methodology: New vistas for qualitative research. Sage: Llundain.

Braun, V., a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. Qualitative research in psychology, 3(2), 77-101. [Cyrchwyd 14/03/2024].

Braun, V., a Clarke, V. (2013). Successful Qualitative Research: a practical guide for begianes. Sage: Llundain.

Braun, V., a Clarke, V. (2022). Thematic analysis: A practical guide. Sage: Llundain

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Estyn (2023). Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Estyn. [Cyrchwyd 23/10/2024].

Hughes, S. (2019). Cyhoeddiad Newydd: Addysg heblaw yn yr ysgol. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwil y Senedd. [Cyrchwyd 23/10/2024].

OECD. (2014). Improving Schools in Wales (PDF): An OECD Perspective.

Senedd Cymru (2019). Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019) Addysg heblaw yn yr ysgol. Caerdydd: Senedd Cymru. [Cyrchwyd 07/10/2025].

Llywodraeth Cymru (2014). Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014. [Cyrchwyd 01/05/024].

Llywodraeth Cymru (2020). Adolygiad o drefniadau comisiynu awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. [Cyrchwyd 07/02/2025].

Llywodraeth Cymru (2021). Rheoliadau ynghylch adrodd am wybodaeth am ysgolion a disgyblion: crynodeb o'r gofynion o ran adrodd ar wybodaeth ysgolion a disgyblion. [Cyrchwyd 01/05/2024].

Llywodraeth Cymru (2022). Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol. [Cyrchwyd 15/05/2025].

Llywodraeth Cymru (2024a). Cymwysterau Cymru: pynciau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) newydd wedi'u cadarnhau. [Cyrchwyd 14/02/2025]

Llywodraeth Cymru (2024b). Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 14/02/2025].

Llywodraeth Cymru (2024c). Cynllunio eich cwricwlwm: Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). [Cyrchwyd 26/03/2024].

Llywodraeth Cymru (2024d). Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2023 i Awst 2024. [Cyrchwyd 23/10/2024].

Llywodraeth Cymru (2024e). Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb o'r ddeddfwriaeth. [Cyrchwyd 17/032025].

Llywodraeth Cymru (2024f). Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu. [Cyrchwyd 25/03/2024].

Llywodraeth Cymru (2024g). Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm. [Cyrchwyd 26/03/2024].

Llywodraeth Cymru. (2024h). Datganiad Ysgrifenedig: Gwella ysgolion. [Cyrchwyd 16/05/2025].

Llywodraeth Cymru (2025). Datganiad Ysgrifenedig: Y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion – Diweddariad ar y Cynnydd. [Cyrchwyd 15/05/2025].

# Atodiad B: Offerynnau ymchwil

## Atodiad B.1: Canllaw trafod ar gyfer ymarferwyr yn gweithio mewn awdurdodau lleol

Cyfranogwyr: ymarferwyr yn yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am gynllunio ac arwain y cwricwlwm mewn AHY, gan gynnwys UCDau, a swyddogion cynhwysiant.

Cwestiynau trafod/ysgogi

Cwestiwn ymchwil 6: Sut mae'r awdurdod lleol yn penderfynu pa ddarpariaeth AHY ddylai gael ei darparu i ddysgwyr? Cwestiwn ymchwil 5: A ddarperir cwricwlwm wedi'i gynllunio gan awdurdodau lleol i leoliadau AHY nad ydynt yn UCDau, yn unol â deddfwriaeth?

- Er mwyn ein helpu i ddeall yn well y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo, a allech chi amlinellu unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar ba fath o ddarpariaeth AHY sy'n cael ei gynnig i ddysgwyr yn eich ALl?
- Os yw'ch awdurdod lleol yn cyfeirio dysgwyr at UCDau, sut ydych chi'n gweithio gydag athrawon â gofal a'r pwyllgorau rheoli i gynllunio'r cwricwlwm?
- A oes unrhyw randdeiliaid eraill sy'n ymwneud â'r broses nad ydym wedi'u crybwyll? Os felly, pwy? Pa rôl maen nhw'n ei chwarae?
- A oes unrhyw fesurau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno ac yn diwallu anghenion dysgwyr unigol?
    - Os oes, pa fathau o fesurau?
    - Os nac oes, pa adnoddau ydych chi'n meddwl fyddai'n gallu llenwi'r bwlch hwn?
- Os yw'ch awdurdod lleol yn comisiynu darparwyr AHY eraill i gyflwyno'r cwricwlwm, sut ydych chi'n mynd ati i drefnu hyn?
- A ydyn nhw i gyd yn derbyn cwricwlwm wedi'i gynllunio gan awdurdod lleol? Os felly, a ydyn nhw'n adrodd bod hyn yn diwallu anghenion y dysgwyr? Os na, pa gefnogaeth ychwanegol fyddai'n werthfawr wrth bontio'r bwlch?

- A oes unrhyw fesurau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn diwallu anghenion dysgwyr unigol?
    - Os oes, pa fathau o fesurau?
    - Os nac oes, pa adnoddau ydych chi'n meddwl fyddai'n gallu llenwi'r bwlch hwn?
- Ydych chi'n wynebu heriau wrth ddod o hyd i ddarparwyr sy'n gallu cyflwyno'r cwricwlwm awdurdod lleol? Os felly, allwch chi amlinellu beth yw'r heriau hyn?

Cwestiwn ymchwil 4. A oes gan ymarferwyr yn UCDau fynediad at ddysgu proffesiynol a chefnogaeth i gynorthwyo gyda chynllunio trefniadau cwricwlwm ac asesu?

- Allwch chi roi trosolwg o'r cynnig dysgu proffesiynol sydd ar gael i UCDau a/neu ddarpariaeth AHY yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â deall a gweithredu canllawiau Cwricwlwm i Gymru?
    - Ydych chi wedi gweld unrhyw un o'r cyfleoedd hyn i fod yn fwy buddiol nag eraill?
        - Os ydych, pa rai a pham?
        - Oes unrhyw beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll o'r cynnig hwn?
- Ydych chi'n teimlo bod ymarferwyr yn ymwneud â hyn? Os na, a oes gennych chi syniadau pam y gallai hyn fod a/neu awgrymiadau ar sut i wella ymgysylltu ag ymarferwyr?

Cwestiwn ymchwil 1. Ym mha ffyrdd y mae UCDau a darparwyr AHY eraill yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

- Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
- A ydych chi'n teimlo bod Cwricwlwm i Gymru yn darparu mynediad at gwricwlwm mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr, o'i gymharu â'r dull blaenorol?

    - A yw unrhyw un o'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn adeiladu ar hyn? (er enghraifft, wrth i'r cyflwyniad barhau ar gyfer dysgwyr hŷn?)
- I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae iechyd a lles pob dysgwr yn cael ei feithrin a'i gryfhau?
- (Os nad yw'n cael sylw uchod) Ydych chi'n teimlo y bydd Cwricwlwm i Gymru yn helpu i wella dyheadau dysgwyr AHY?
    - Os ydych – sut, ac ym mha ffyrdd?
    - Os nad ydych – beth yn fwy y gellir ei wneud?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
- (Os nad yw'n cael sylw uchod) Ydych chi'n teimlo y bydd Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar agweddau dysgwyr AHY  tuag at ddysgu?
    - Os ydych – sut, ac ym mha ffyrdd?
    - Os nad ydych – beth yn fwy y gellir ei wneud?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
- Ydych chi wedi nodi unrhyw heriau sy'n gwneud cydymffurfio â chanllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru yn heriol ar gyfer UCDau a darpariaeth AHY arall?
    - Beth yw’r rhain?
    - A oes unrhyw gefnogaeth a allai helpu i liniaru'r heriau hyn?
- Efallai y bydd rhai achosion lle nad yw'n rhesymol bosibl ac yn briodol gweithredu pob Maes dysgu ar gyfer unigolyn. Sut mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn eich awdurdod lleol chi?
- Ydych chi'n teimlo bod y cwricwlwm rydych chi'n ei dderbyn/ei ddefnyddio yn bodloni anghenion unigol eich dysgwyr?
    - Os na, ym mha ffyrdd y mae'n brin/y gellid ei wella? A oes unrhyw adnoddau rydych chi'n teimlo a fyddai'n werthfawr wrth bontio'r bwlch?

Cwestiwn ymchwil 2. I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd wedi galluogi UCDau a darparwyr AHY i gefnogi eu dysgwyr?

- Beth yw rhai o'ch ystyriaethau wrth ddatblygu trefniadau asesu ar gyfer dysgwyr AHY?
    - Sut mae asesu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dilyniant dysgwyr?
    - Oes gennych unrhyw ystyriaethau penodol ar gyfer hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth?
- (Os nad yw wedi derbyn sylw uchod) Sut mae data asesu yn cael ei ddefnyddio i hwyluso sgyrsiau ynghylch pontio neu ailintegreiddio dysgwyr i ysgol brif ffrwd, darpariaeth arbenigol, addysg bellach, hyfforddiant, neu i fyd gwaith?
    - Ydych chi'n teimlo y bydd hyn yn fwy neu lai llwyddiannus na'r trefniadau o dan y cwricwlwm blaenorol?

Cwestiwn ymchwil 3. Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio (neu'n cymryd rhan mewn deialog broffesiynol) i gefnogi dysgwyr AHY?

- O'ch profiad yn eich ALI, sut mae gwahanol randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi dysgwyr mewn UCDau a darpariaeth AHY arall i wneud cynnydd? Byddai'n arbennig o ddefnyddiol gwybod pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol a pha rôl maen nhw'n ei chwarae.
    - Pa mor aml mae'r sgyrsiau hyn yn digwydd?
    - I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae dysgwyr yn ymwneud â chynllunio a datblygu cwricwlwm yn eich ALI?
        - Manteision/heriau sy'n gysylltiedig â dull gweithredu?
        - Cyfleoedd/cynlluniau i wneud mwy?
    - I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae rhieni/gofalwyr yn ymwneud â chynllunio a datblygu cwricwlwm yn eich ALIau?
        - Manteision/heriau sy'n gysylltiedig â dull gweithredu
- A yw'r dysgwyr AHY yn cael eu cefnogi i ailintegreiddio i ddarpariaeth brif ffrwd neu arbenigol neu drosglwyddo iddi, a/neu eu galluogi i symud ymlaen tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith?
    - Cyfleoedd/cynlluniau i wneud mwy?

Cwestiwn i gloi

- A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu rydych chi'n teimlo sy'n bwysig, ond nad ydych wedi cael y cyfle i'w ddweud yn ystod y grŵp ffocws?

## Atodiad B.2: Canllaw trafod cyfweliad/grŵp ffocws lled-strwythuredig ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn UCDau

Cyfranogwyr: ymarferwyr sy'n gweithio mewn UCDau sy'n gyfrifol am weithredu'r cwricwlwm

Cwestiynau trafod/ysgogi

Cwestiwn ymchwil 4. A oes gan ymarferwyr mewn UCDau fynediad at ddysgu proffesiynol a chefnogaeth i gynorthwyo gyda chynllunio trefniadau cwricwlwm ac asesu?

- Allwch chi roi trosolwg o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol rydych chi'n ymwybodol ohonynt, neu yr ydych wedi cymryd rhan ynddynt, i'ch cefnogi i ddeall a deddfu canllawiau Cwricwlwm i Gymru?
    - Ydych chi wedi gweld unrhyw un o'r cyfleoedd hyn yn fwy buddiol nag eraill? Os felly, pa un a pham?
    - A oes unrhyw beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll o'r cynnig dysgu proffesiynol?
    - Ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau wrth allu cael mynediad at y cyfleoedd hyn?

Cwestiwn ymchwil 1. Ym mha ffyrdd y mae UCDau yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

- Ym mha ffyrdd y mae UCDau yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â fframwaith Cwricwlwm i Gymru?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
    - A yw unrhyw un o'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn adeiladu ar hyn? (er enghraifft, wrth i weithrediad y cwricwlwm barhau ar gyfer dysgwyr hŷn?).
    - Allwch chi roi trosolwg o'ch gweithgareddau allweddol wrth gefnogi iechyd a lles?

    - Allwch chi roi trosolwg o'ch gweithgareddau allweddol mewn perthynas â perthnasoedd a rhywioldeb?
- (Os na thrafodwyd uchod) Ydych chi'n teimlo y bydd Cwricwlwm i Gymru yn helpu i wella dyheadau eich dysgwyr?
    - Os ydych – sut, ac ym mha ffyrdd?
    - Os na – beth mwy y gellid ei wneud?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r cwricwlwm blaenorol?
- (Os na thrafodwyd uchod) Ydych chi'n teimlo y bydd Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar agwedd eich dysgwyr tuag at ddysgu?
    - Os ydych – sut, ac ym mha ffyrdd?
    - Os nad ydych – beth yn fwy y gellid ei wneud?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
- Ydych chi wedi adnabod unrhyw heriau sy'n gwneud cydymffurfio â chanllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru yn heriol i UCDau?
    - Beth yw’r heriau hyn?
    - A oes unrhyw gefnogaeth a allai helpu i liniaru'r heriau hyn?
- Efallai y bydd rhai achosion lle nad yw'n rhesymol bosibl ac yn briodol gweithredu pob Maes dysgu ar gyfer unigolyn. Sut mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn eich awdurdod lleol chi?
- A oes mynediad at gwricwlwm cynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol pob dysgwr?

Cwestiwn ymchwil 2. I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd wedi galluogi UCDau i gefnogi eu dysgwyr?

- Os ydych wedi bod yn rhan o ddatblygu a / neu gyflwyno asesiadau ar gyfer eich dysgwyr, beth yw rhai o'ch ystyriaethau allweddol?
    - Sut mae asesiad yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dilyniant dysgwyr?
    - Ystyriaethau penodol ar gyfer hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth?

- (Os na thrafodwyd uchod) Sut mae data asesu yn cael ei ddefnyddio i hwyluso sgyrsiau ynghylch pontio neu ailintegreiddio dysgwyr i ysgol brif ffrwd, darpariaeth arbenigol, addysg bellach, hyfforddiant, neu'r byd gwaith?
    - Ydych chi'n teimlo y bydd hyn yn fwy neu lai llwyddiannus na'r trefniadau o dan y cwricwlwm blaenorol?
- Beth yw eich ystyriaethau wrth ddefnyddio neu adrodd ar asesiadau ar gyfer eich dysgwyr?
    - Ystyriaethau penodol ar gyfer hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth (wrth gyflwyno asesiadau a defnyddio data)?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar ymarferwyr i alinio eu hymarfer â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru?

Cwestiwn ymchwil 3. Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio (neu'n cymryd rhan mewn deialog broffesiynol) i gefnogi dysgwyr UCD?

- O'ch profiad chi, sut mae gwahanol randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi eich dysgwyr i wneud cynnydd tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith? Byddai'n arbennig o ddefnyddiol gwybod pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol a pha rôl maen nhw'n ei chwarae.
    - Pa mor aml mae'r sgyrsiau hyn yn digwydd?
    - I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae eich dysgwyr yn ymwneud â chynllunio a datblygu'r cwricwlwm rydych chi'n ei ddarparu?
        - Manteision/heriau sy'n gysylltiedig â’r dull gweithredu?
        - Cyfleoedd/cynlluniau i wneud mwy?
    - I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae rhieni/gofalwyr yn rhan o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm rydych chi'n ei ddarparu?
        - Manteision/heriau sy'n gysylltiedig â’r dull gweithredu?
        - Cyfleoedd/cynlluniau i wneud mwy?
- Ydych chi'n gweithredu o fewn clwstwr presennol o UCDau/ysgolion sy'n cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i rannu profiadau?
    - Os ydych, beth yw manteision hyn (os o gwbl)?

Cwestiwn i gloi

- A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu rydych chi'n teimlo sy'n bwysig, ond nad ydych wedi cael y cyfle i'w ddweud yn ystod y grŵp ffocws?

## Atodiad B.3: Canllaw trafod cyfweliad/grŵp ffocws lled-strwythuredig ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn darpariaeth AHY nad yw'n UCD

Cyfranogwyr: ymarferwyr sy'n gweithio mewn darpariaeth AHY nad yw'n UCD sy'n gyfrifol am weithredu'r cwricwlwm

Cwestiwn ymchwil 1. Ym mha ffyrdd y mae darparwyr AHY yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

Cwestiwn ymchwil 5. Ym mha ffyrdd y mae darparwyr AHY nad ydynt yn UCDau yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â fframwaith Cwricwlwm i Gymru

- Beth yw eich dealltwriaeth o ofynion cwricwlwm awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr AHY?
    - Ydych chi'n ymwybodol o ganllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru / elfennau allweddol Cwricwlwm i Gymru (megis y Meysydd Dysgu a Phrofiad, y pedwar diben, trefniadau asesu)?
    - Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn y cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr AHY sydd wedi'u cyfeirio gan yr ALI?
        - Os felly, a allech chi roi trosolwg i ni o'r gwahaniaethau allweddol?
    - Unrhyw newidiadau i'r canllawiau ynghylch cyflwyno'r cwricwlwm hwn?
        - Os felly, a allech chi roi trosolwg i ni o'r newidiadau allweddol?
- Ydych chi'n teimlo bod y cwricwlwm rydych chi'n ei dderbyn/ei ddefnyddio yn diwallu anghenion unigol eich dysgwyr?
    - Os na, ym mha ffyrdd y mae'n brin / y gellid ei wella? A oes unrhyw adnoddau rydych chi'n teimlo a fyddai'n werthfawr er mwyn llenwi'r bwlch?

Os yn medru ateb:

- Ym mha ffyrdd ydych chi'n teimlo bod cwricwlwm yr awdurdod lleol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
    - Allwch chi roi trosolwg o'ch gweithgareddau allweddol wrth gefnogi iechyd a lles?
    - Allwch chi roi trosolwg o'ch gweithgareddau allweddol mewn perthynas â perthnasoedd a rhywioldeb?
- (Os na thrafodwyd uchod) Ydych chi'n teimlo y bydd Cwricwlwm i Gymru yn helpu i wella dyheadau dysgwyr sydd wedi'u cyfeirio atoch chi?
    - Os ydych – sut, ac ym mha ffyrdd?
    - Os na – beth mwy y gellid ei wneud?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
- (Os na thrafodwyd uchod) Ydych chi'n teimlo y bydd Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar agweddau tuag at ddysgu ymysg dysgwyr AHY?
    - Os ydych – sut, ac ym mha ffyrdd?
    - Os nad ydych – beth yn fwy y gellid ei wneud?
    - Sut mae hyn yn cymharu â'r trefniadau cwricwlwm blaenorol?
- Ydych chi wedi adnabod unrhyw heriau sy'n gwneud cydymffurfio â chanllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru yn heriol i ddarparwyr AHY?
    - Beth yw'r heriau hyn?
    - A oes unrhyw gefnogaeth a allai helpu i liniaru'r heriau hyn?
- Efallai y bydd rhai achosion lle nad yw'n rhesymol bosibl ac yn briodol gweithredu pob Maes dysgu ar gyfer unigolyn. Os ydych chi'n ymwybodol o'r broses, a allech amlinellu eich dealltwriaeth o sut mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn eich cyd-destun?

Cwestiwn ymchwil 2. I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd wedi galluogi darparwyr AHY i gefnogi eu dysgwyr?

- Beth yw rhai o'ch ystyriaethau wrth ddefnyddio neu adrodd ar asesiadau ar gyfer eich dysgwyr?
    - Sut ydych chi’n defnyddio’r asesiadau hyn i gefnogi cynnydd dysgwyr?
    - A yw eich awdurdod lleol yn defnyddio'r data hwn i wneud penderfyniadau am ddilyniant dysgwyr? Os felly, sut?
    - Ystyriaethau penodol ar gyfer hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth (wrth gyflwyno asesiadau a defnyddio data)?
- (Os na thrafodwyd uchod) Sut ydych chi'n defnyddio data asesu i hwyluso sgyrsiau ynghylch pontio neu ailintegreiddio dysgwyr i ysgol brif ffrwd, darpariaeth arbenigol, addysg bellach, hyfforddiant, neu'r byd gwaith?
    - Ydych chi'n teimlo y bydd hyn yn fwy neu lai llwyddiannus na'r trefniadau o dan y cwricwlwm blaenorol?
    - A yw eich awdurdod lleol yn chwarae rhan yn hyn? Os ydy, i ba raddau?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar ymarferwyr i alinio eu hymarfer â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru?

Cwestiwn ymchwil 3. Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio (neu'n cymryd rhan mewn deialog broffesiynol) i gefnogi dysgwyr AHY?

- O'ch profiad chi, sut mae gwahanol randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi eich dysgwyr i wneud cynnydd tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith? Byddai'n arbennig o ddefnyddiol gwybod pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol a pha rôl maen nhw'n ei chwarae.
    - Pa mor aml mae'r sgyrsiau hyn yn digwydd?
    - I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae eich dysgwyr yn ymwneud â chynllunio a datblygu'r cwricwlwm rydych chi'n ei ddarparu?
        - Manteision/heriau sy'n gysylltiedig â’r dull gweithredu?
        - Cyfleoedd/cynlluniau i wneud mwy?
    - I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae rhieni/gofalwyr yn rhan o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm rydych chi'n ei ddarparu?

        - Manteision/heriau sy'n gysylltiedig â’r dull gweithredu?
        - Cyfleoedd/cynlluniau i wneud mwy?

Cwestiwn ymchwil 5. Beth yw rhai o'r hwyluswyr a'r rhwystrau i lwyddiant sy'n gysylltiedig â gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth AHY?

- Wrth feddwl am eich profiadau hyd yma, beth sydd wedi bod yn rhai o'r ______ allweddol wrth weithredu'r cwricwlwm awdurdod lleol newydd (Cwricwlwm i Gymru) yn eich cyd-destun?
    - Hwyluswyr
    - Heriau
    - Llwyddiannau

Cwestiwn i gloi

- A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu rydych chi'n teimlo sy'n bwysig, ond nad ydych wedi cael y cyfle i'w ddweud yn ystod y grŵp ffocws?